




Gofal
Cymdeithasol
yng Nghymru
Canllawiau i Rien



Working wonders for children with brain conditions

Families where a child has a brain condition face challenges every day. Just to learn, play, make friends and experience the world can feel difficult, even impossible. But we don't believe there's any challenge that can't be overcome.

So we listen to families, we learn from them. We carry out research, we design and innovate, we make and share. From new equipment to new learning resources, to new ways to play and support each other, everything we find out together makes life better. It opens doors to discovering the world.

It's an incredibly rewarding journey for everyone involved. Why not be a part of it? You never know what we'll discover together.

www.cerebra.org.uk

Our guides for parents help you find the answers you need. You can view and download the full series of our guides and factsheets completely free from our website www.cerebra.org.uk.

If you would like to make a donation to help cover the cost of producing our guides please just text **CERE12** and the amount you want to give to **70070** or give us a call on **01267 244216**. You can also donate online.

Thank you.

Contents

Cyflwyniad	4
1. Yr Hanfodion	5
2. Pryd Allai fy Mhlentyn Fod â Hawl i Gael Gwasanaethau Ychwanegol?	9
3. Y broses asesu	10
4. Beth all yr awdurdod lleol ei wneud i ni?	21
5. Taliadau Uniongyrchol	26
6. Cynlluniau gofal a chymorth	27
7. Deddf Cydraddoldeb 2010 a gwasanaethau gofal cymdeithasol	31
8. Cwynion: crynodeb o'r atebion posibl	36
9. Geirfa	37
10. Adnoddau	39

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn wedi eu paratoi ar gyfer rhieni plant anabl yng Nghymru sy'n dymuno gwybod sut i gael help ar gyfer anghenion gofal cymdeithasol eu plentyn. Maent yn ymdrin yn bennaf â chyfrifoldebau awdurdodau lleol i ddarparu gofal cymdeithasol i blant anabl, yn ogystal â chymorth i rieni/gofalwyr y plant hynny. Cawsant eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016 ac sy'n creu fframwaith cyfreithiol newydd a gwahanol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, a fydd yn cael effaith ddwys ar y modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol.¹

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i asesu anghenion gofal a chymorth plant anabl. Yn gyffredinol, bydd methu â chynnal asesiad o'r fath yn anghyfreithlon. Ar ben hynny, pan fydd asesiad o'r fath wedi ei gynnal, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion gofal y plentyn anabl dan sylw. Eto, bydd methu â darparu gwasanaethau o'r fath yn anghyfreithlon. Er mai dyna beth ddylai ddigwydd, gallai'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd fod yn wahanol, a bwriad y canllawiau hyn yw helpu rhieni plant anabl i ddeall eu hawliau. Fodd bynnag, nid bwriad y canllawiau hyn yw cynnig cyngor cyfreithiol, ac ni ddylid dibynnu arnynt i'r perwyl hwnnw. Pan fydd materion penodol yn codi, dylai rhieni bob amser gymryd cyngor penodol, annibynnol gan linell gymorth eiriolaeth, gwasanaeth eirioli neu gyfreithiwr. Ceir manylion yn yr **Adran adnoddau ar dudalen 39**.

Yn erbyn y cefndir cyffredinol hwnnw, mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

1. Yr hanfodion. Trosolwg o gyfrifoldebau allweddol awdurdodau lleol i ddarparu gofal cymdeithasol i blant anabl, gan gynnwys rhai o'r "egwyddorion cyffredinol" sy'n llywodraethu prosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol yn y maes hwn.

2. Pryd allai fy mhlentyn fod â hawl i gael gwasanaethau ychwanegol? Mae'r adran hon yn esbonio'r amgylchiadau pan fydd y gyfraith yn ystyried bod angen gofal a chymorth ar blentyn gan ei awdurdod lleol cyfrifol.

3 Y broses asesu. Mae'r adran hon yn ymdrin, yn benodol, â'r amgylchiadau pan fydd dyletswydd ar awdurdod lleol i asesu anghenion gofal cymdeithasol plant anabl yn ogystal ag anghenion rhieni sy'n gofalu am blant o'r fath. Mae'n esbonio ffurf asesiadau o'r fath, gan gynnwys yr amserlen ar eu cyfer. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r modd y mae awdurdod lleol yn cymhwyso **meini prawf cymhwystro** er mwyn penderfynu a ddylid darparu gofal.

4 Beth all awdurdodau lleol ei wneud i ni? Canllawiau manwl ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol y gall awdurdodau lleol eu darparu, yr amgylchiadau pan fyddant ar gael ac a fydd awdurdodau lleol yn codi tâl am y gwasanaethau hynny. Mae hefyd yn rhoi esboniad manwl o "ofal seibiant byr", gwasanaeth arbennig o bwysig y gall awdurdodau lleol ei ddarparu i bobl sy'n gofalu am blant anabl.

5 Taliadau uniongyrchol. Mae'r adran hon yn rhoi manylion am sut y gall rhieni/gofalwyr drefnu gwasanaethau gofal ar gyfer plant anabl eu hunain, trwy ofyn i gael eu talu'n uniongyrchol gan eu hawdurdod lleol.

¹ Rhan 3 Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion), para 9

6 Cynlluniau gofal a chymorth. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y modd y dylai anghenion gofal plentyn anabl gael eu cofnodi gan awdurdod lleol.

7 Deddf Cydraddoldeb 2010 a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r adran hon yn esbonio sut y bydd y Ddeddf, sy'n diogelu pobl anabl rhag gwahaniaethu, yn berthnasol i deuluoedd wrth iddynt dderbyn (neu chwilio am) wasanaethau gofal cymdeithasol.

8 Cwynion. Mae'r adran hon yn amlinellu'r opsiynau sydd ar gael i rieni sy'n anhapus

ag unrhyw agwedd ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol eu hawdurdod lleol.

9 Geirfa. Mae'r adran hon yn cynnwys diffiniadau o dermau cyfreithiol allweddol penodol a ddefnyddir yng nghyd-destun gofal cymdeithasol, a amlygir mewn print **glas** trwy'r canllawiau hyn.

10 Adnoddau. Mae'r adran hon yn darparu rhai adnoddau defnyddiol i rieni sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am y gyfraith yn y maes hwn.

I. Yr Hanfodion

I.1 Pryd allai fy mhlentyn fod â hawl i gael gofal a chymorth ychwanegol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?

Os oes angen gofal a chymorth ar eich **plentyn**, yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth a ddarperir gan eich teulu, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu ei anghenion.² Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys faint bynnag o gymorth neu'r math o gymorth sydd ei angen ar y plentyn, ac nid yw sefyllfa ariannol y plentyn neu unrhyw unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant yn effeithio ar hyn.

O ran plentyn **anabl**, tybir bod gan blentyn o'r fath anghenion gofal a chymorth yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn.³

I.2 Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer y "ddyletswydd i asesu"?

Mae dyletswydd awdurdod lleol i asesu anghenion gofal a chymorth plentyn yn codi pan ymddengys y gallai fod gan blentyn anghenion o'r fath yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn.⁴ Mae'n rhaid i'r asesiad hwn gynnwys:

- Asesu anghenion datblygu'r plentyn;
- Nodi'r canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni, a'r canlyniadau y mae rhiant (rhieni) y plentyn yn dymuno iddo eu cyflawni;
- Asesu lefel y gofal, cymorth, gwasanaethau, gwybodaeth, cyngor neu gymorth a allai helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny;
- Asesu a allai materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny;
- Ystyried unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar les y plentyn⁵

Fel y nodir uchod, tybir yn awtomatig bod gan **plentyn anabl** anghenion gofal a chymorth ac felly mae'n rhaid asesu ei anghenion.

² Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Adran 21(1)

³ S21(7)

⁴ S21(1)

⁵ S21(4)(a)-(e)

Rhoddir rhagor o wybodaeth isod ynglŷn â'r ddyletswydd i asesu a'r gwasanaethau y gellid eu darparu o ganlyniad i asesiad o'r fath.

1.3 Pryd fydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gymwys?

Daeth y Ddeddf newydd i rym ar 6 Ebrill 2016. Pan fo anghenion unigolyn yn cael eu diwallu o dan ddeddfwriaeth bresennol ar 6 Ebrill 2016, yna bydd dyletswydd barhaus ar awdurdod lleol i ddarparu ar gyfer yr anghenion hynny o dan y ddeddfwriaeth a oedd yn bodoli o'r blaen. Bydd hyn yn parhau nes y bydd anghenion yr unigolyn wedi eu hailasesu a/neu eu hadolygu. Os na fydd ailasesiad a/neu adolygiad o'r fath wedi ei gynnal cyn 31 Mawrth 2017 (neu 1 Hydref 2016 yn achos plentyn), yna ar yr adeg honno bydd dyletswydd yr awdurdod i ddarparu gwasanaethau yn deillio o'r Ddeddf newydd.⁶

1.4 Egwyddorion cyffredinol

Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu awdurdodau lleol ym maes gofal cymdeithasol yn gymhleth, a gall fod yn ddryslud. Pan fo materion penodol yn codi, gallai fod angen cael cyngor arbenigol. Ceir manylion sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn ac sy'n gallu darparu rhagor o wybodaeth fanwl yn yr **adran Adnoddau ar dudalen 39**. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol i chi gadw'r pwyntiau cyffredinol hyn mewn cof:

- Nid oes rhaid i chi wneud cais am asesiad ar gyfer eich plentyn gan y bydd y rhwymedigaeth i gynnal asesiad yn cael ei sbarduno gan 'ymddangosiad angen'.⁷

- Mae gennych yr hawl i fod yn rhan o asesiad eich plentyn.⁸
- Mae gennych yr hawl i dderbyn copi ysgrifenedig o asesiad eich plentyn (neu eich asesiad eich hun).⁹
- Yn bwysig iawn, mae gan rieni hefyd hawl annibynnol i gael asesiad o'u hanghenion eu hunain am gymorth (**asesiad gofalwr**) pan ymddengys i awdurdod lleol bod gan **ofalwr** anghenion o'r fath¹⁰ (gweler **adran 3.17 ar dudalen 21** i gael rhagor o fanylion am yr asesiad gofalwr).
- Mae barn dau riant y plentyn y gallai fod angen gofal a chymorth arno, a barn y plentyn ei hun, yn ystyriaeth ganolog o bwys mewn unrhyw benderfyniadau sydd i'w gwneud am y gofal a'r cymorth y dylai awdurdod lleol ei ddarparu. Gall problemau godi pan fo gan blant o'r fath, er hynny, y galluedd i wneud penderfyniadau eu hunain. Yn gyffredinol, mae'r gyfraith yn tybio nad yw plant dan 16 oed yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, ac felly bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu rhan gan unigolion sydd â **chyfrifoldeb rhiant**. Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn syml, gan fod y gyfraith hefyd yn caniatáu i blant sydd â digon o ddealltwriaeth o oblygiadau penderfyniad penodol (e.e. i dderbyn triniaeth feddygol) wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Ar ben hynny, gallai fod sefyllfaoedd pan fo plant anabl yn dymuno cael cymorth gan awdurdod lleol ar sail gyfrinachol, neu gallant fod yn anfodlon i'w rhieni ddatgelu gwybodaeth i awdurdod lleol heb eu caniatâd. Nid yw'r materion cyfreithiol ac ymarferol sy'n codi ynghylch galluedd a chyfrinachedd yn syml o gwbl. Fodd bynnag, caiff agweddau allweddol ar y gyfraith yn y maes hwn eu hesbonio yn fwy

6 Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2016

7 S21(1)

8 S21(5)(b)

9 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliad 6(1) a (2)

10 S24(1)

manwl yn ein canllawiau i rieni ar **Gwneud penderfyniadau, Cyfrinachedd a Rhannu gwybodaeth** (gweler yr **adran Adnoddau ar dudalen 39**).

Yn fwy cyffredinol, gan fod awdurdodau lleol yn **gyrff cyhoeddus**, mae'r gyfraith yn eu gosod dan nifer o ddyletswyddau **cyffredinol**, gan gynnwys:

- Dyletswydd i ymddwyn yn rhesymol a theg, sy'n cynnwys (ymhlith pethau eraill) roi rhesymau priodol a manwl am eu penderfyniadau, gan weithredu heb oedi diangen, gweithredu yn unol ag unrhyw bolisiau sydd wedi eu cyhoeddi ac anrhydeddu unrhyw addewidion neu ymrwymadau y gallant fod wedi eu gwneud oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.
- Dyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys deddfwriaeth benodol ym maes gofal cymdeithasol, a darnau mwy cyffredinol o ddeddfwriaeth fel **Deddf Hawliau Dynol 1998**.
- Yn bwysig iawn, mae'r gyfraith y mae awdurdodau lleol yn agored iddi hefyd yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 (gweler tudalen 31). Mae hyn yn hynod o berthnasol yng nghyd-destun plant anabl, gan fod anabledd yn "nodwedd warchoddedig" o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n golygu nad oes gan awdurdodau lleol yr hawl i wahaniaethu rhwng plant anabl a phlant nad ydynt yn anabl, er enghraifft wrth ddarparu gwasanaethau. Ar ben hynny, o ran **plant anabl** yn benodol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud "addasiadau rhesymol" mewn achosion pan fyddai plant anabl dan anfantais sylweddol fel arall wrth gael gfael ar gyfleusterau neu wasanaethau cyhoeddus.
- O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (a elwir yn 'y Ddeddf' o hyn ymlaen yn y canllawiau hyn), mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi 'sylw dyledus' i Gonfensiwn y Cenhedloedd

Unedig ar Hawliau'r Plentyn¹¹ a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau¹² (gweler yr **adran Adnoddau ar dudalen 39**).

Nodir rhagor o egwyddorion cyffredinol sy'n llywodraethu'r dull y dylai awdurdodau lleol ei ddefnyddio yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2005. Mae hwn yn nodi cyfres o safonau, gan gynnwys safonau 'Cyffredin i bob Plentyn', yn ogystal â safonau allweddol ynglŷn â gwasanaethau penodol a lleoliadau, sef:

- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y Plentyn neu'r Teulu;
- Gwasanaethau Mamolaeth;
- Plant a Phobl Ifanc â Phroblemau ac Anhwylderau Iechyd Meddwl;
- Plant a Phobl Ifanc Anabl;
- Plant a Phobl Ifanc mewn Amgylchiadau Arbennig; a
- Salwch neu Anaf Acíwt a Chronig.

Er bod y safonau hyn yn arwyddion o arfer da yn hytrach na gofynion cyfreithiol ffurfiol, maent yn fodd defnyddiol o ddangos yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol, a (gan eu bod wedi eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru) mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth wneud penderfyniadau neu ddatblygu polisiau sy'n ymwneud â phlant. Mae'r **adran Adnoddau ar dudalen 39** yn rhoi rhagor o wybodaeth.

1.5 Gofal cymdeithasol a Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig ('AAA')

Mewn rhai achosion (ond dim pob un o bell ffordd), bydd gan **plant anabl** anghenion addysgol arbennig hefyd. Mae hawliau plant anabl i gael cymorth arbennig (ac mewn

11 S7(2)

12 Rhan 2 Cod, para 67

achosion arbennig yr hawl i gael Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig) wedi eu cynnwys mewn canllawiau ar wahân i rieni, **Addysg yng Nghymru** (gweler yr **adran Adnoddau ar dudalen 39**).

1.6 Awgrymiadau defnyddiol

Cofiwch fod gennych chi arbenigedd nad oes gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'ch plentyn. Mae'r canllawiau yn egluro eich bod chi a'ch plentyn yn bartneriaid cyfartal yn eich perthynas â gweithwyr proffesiynol yn y broses asesu¹³. Rydych chi'n adnabod eich plentyn yn dda iawn ac rydych chi'n gwybod sut y mae anabledd eich plentyn a/neu ei gyflwr gofal iechyd yn effeithio ar eich plentyn ac aelodau eraill o'r teulu. Dylech gael eich cynnwys mewn asesiadau o anghenion gofal cymdeithasol eich plentyn a chyfarfodydd cysylltiedig, fel adolygiadau o gynllun gofal eich plentyn. Gallech hefyd gael **asesiad gofalwr**.

Er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfodydd ac asesiadau o'r fath gallai fod yn ddefnyddiol i chi:

- Nodi'r trafodaethau yr ydych yn eu cael gydag ymarferwyr ynglŷn ag iechyd a llesiant eich plentyn, er enghraifft i gadarnhau diagnosis eich plentyn
- Cadw'r holl bapurau perthnasol gyda'i gilydd mewn un man (gallai hyn gynnwys, er enghraifft, llythyrau yr ydych yn eu derbyn gan ymarferwyr iechyd, gofal cymdeithasol ac ymarferwyr eraill, copïau o'ch llythyron at weithwyr proffesiynol am eich plentyn a nodiadau o'ch trafodaethau â nhw)

Cyn cyfarfod neu asesiad pwysig ohonoch chi neu eich plentyn, nodwch y pwyntiau yr ydych yn dymuno eu trafod. Gallai'r rhain gynnwys:

- anghenion a dyheadau eich plentyn (yr hyn y mae eich plentyn yn gallu ei wneud, yr hyn nad yw'n gallu ei wneud a'r hyn a allai helpu i alluogi eich plentyn i gyflawni ei ddyheadau)

- eich swyddogaeth fel gofalwr ac effaith hynny arnoch chi a'ch teulu (faint o ofal yr ydych yn ei ddarparu a pha mor aml; a yw hyn yn effeithio ar eich iechyd, eich gallu i weithio, gweld ffrindiau, treulio amser gydag aelodau eraill o'ch teulu; a oes gennych unrhyw bryderon ariannol)
- sut mae anabledd eich plentyn yn effeithio ar aelodau eraill o'r teulu
- yr hyn yr ydych chi'n dymuno ei weld o ganlyniad i'r cyfarfod, gan gynnwys yr amserlen a phwy fydd yn gwneud beth, a deall a yw ymgymeriadau yn y gorffennol wedi eu cwblhau ac os nad ydynt, pam ddim, a phryd fydd y rhain yn cael eu cwblhau.

Yn ystod y cyfarfod, ceisiwch gadw nodiadau o'r holl ddatganiadau a'r addewidion allweddol – yn enwedig pwy sydd wedi cytuno i wneud beth a phryd – ac unrhyw gwestiynau sy'n weddill. Yna dylech anfon e-bost neu bostio llythyr at yr unigolyn a gynhaliodd yr asesiad, yn cadarnhau'r pwyntiau hyn a chodi unrhyw gwestiynau sy'n eich pryderu chi.

Cofiwch fod dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi gwybod i bobl mewn angen a'u gofalwyr am y gofal a'r cymorth sydd ar gael iddynt yn eu hardaloedd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys gwybodaeth am:

- sut mae'r system gofal yn gweithredu'n lleol;
- y dewis o'r mathau o ofal a chymorth, a'r dewis o ddarparwyr yn ardal yr awdurdod lleol;
- sut mae cael gafael ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael; a
- sut i godi pryderon am ddiogelwch/llesiant unigolyn (oedolyn neu blentyn) y mae angen gofal a chymorth arno.¹⁴

2. Pryd Allai fy Mhlentyn Fod â Hawl i Gael Gwasanaethau Ychwanegol?

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hybu llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.¹⁵

Gall 'llesiant' olygu llesiant yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r canlynol:¹⁶

- Llesiant corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- Amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod;
- Addysg, hyfforddiant a hamdden;
- Perthynas ddomestig, deuluol a phersonol;
- Cyfraniad at gymdeithas;
- Sicrhau hawliau;
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- Addasrwydd llety byw.

Ar gyfer plentyn, mae 'llesiant' hefyd yn cynnwys:¹⁷

- Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;
- 'llesiant' fel y'i diffinnir yn Neddf Plant 1989.

Ar gyfer oedolyn, mae 'llesiant' hefyd yn cynnwys:¹⁸

- rheolaeth dros fywyd bob dydd;
- cymryd rhan mewn gwaith.

Os yw eich plentyn yn **blentyn anabl**, efallai y bydd yn ofynnol i'ch awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth ychwanegol. Mae hyn oherwydd bod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau penodol tuag at yr holl blant yn eu hardal y mae'n ymddangos bod angen gofal a chymorth arnynt, yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r

cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn.¹⁹ Ar gyfer plant anabl, mae'r sefyllfa'n gryfach fyth, oherwydd tybir bod angen gofal a chymorth sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir gan ei deulu ar bob plentyn anabl.²⁰

Y darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n nodi dyletswyddau awdurdodau lleol yn y maes hwn yw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.

2.1 Beth yw'r diffiniad cyfreithiol o blentyn anabl?

Er nad yw'r Ddeddf yn dibynnu ar gyfeiriad at 'anabledd', mae'r term 'anabl' yn dod yn berthnasol i ofalwr plentyn anabl. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion gofalwyr sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i blentyn anabl.²¹ Yn y sefyllfa hon y diffiniad o 'blentyn anabl' yw'r hyn sydd yn **Neddf Cydraddoldeb 2010**. O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae gan eich plentyn anabledd os oes ganddo nam corfforol neu nam meddwl sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar ei allu i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.²²

Y broblem sy'n codi o ddefnyddio diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o blentyn anabl yw ei fod yn eithrio pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol yn ogystal â'r rhai hynny â 'tueddiad i gam-drin pobl eraill yn gorfforol'. Mae'r llysoedd wedi canfod bod yr eithriad hwn yn gymwys i blant hefyd.²³ Mae hyn yn golygu bod rhieni plant sy'n camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol, neu sydd â thueddiad i gam-drin pobl eraill yn gorfforol, wedi'u heithrio rhag derbyn cymorth

15 S1(3)(a) a S5
16 S2(2)
17 S2(3)
18 S2(4)

19 S21(1)
20 S21(7)
21 S24
22 Deddf Cydraddoldeb 2010 S6(1)
23 X v Corff Llywodraeth (2015) UKUT 0007 (AAC)

fel gofalwyr. Gallai ymgais gan awdurdod lleol i eithrio gofalwr sy'n rhiant rhag derbyn cymorth ar y sail hon fod yn destun cwyn i'r Ombwdsmon neu gamau cyfreithiol. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol penodol yn y sefyllfa hon.

2.2 Sut y bydd fy awdurdod lleol yn penderfynu a oes angen cymorth ychwanegol ar fy mhentyn?

Er mwyn penderfynu a oes angen gofal a chymorth ychwanegol i ddiwallu anghenion eich plentyn (a'ch teulu), bydd angen i'r awdurdod

lleol gynnal asesiad o'r anghenion hynny. Mae Adran 3 yn esbonio'r amgylchiadau ar gyfer cynnal asesiad o'r fath a'r broses y bydd awdurdodau lleol yn ei dilyn.

Gellir darparu gofal a chymorth i unrhyw aelod o'ch teulu²⁴ yn ogystal â'ch plentyn os bydd hynny'n cynorthwyo eich plentyn. Er enghraifft, cydnabyddir bod darparu gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn diwallu anghenion y rhieni (e.e. trwy "ofal seibiant byr" neu ofal seibiant) yn aml yn ffordd dda o hybu llesiant plant, yn enwedig plant anabl. Ystyrir [Asesiadau gofalwyr](#) ar wahân ar dudalen 26.

24 S34(1)(c)

3. Y broses asesu

Mae'r adran hon yn ceisio ateb rhai o'r cwestiynau allweddol y mae'n debygol y bydd gan rieni am y broses asesu ar gyfer anghenion gofal cymdeithasol plant anabl.

3.1 Trosolwg o'r broses asesu

Gellir rhannu'r broses asesu fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, mae'n rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad os yw'n 'bosibl' bod gan blentyn angen am ofal a/neu cymorth²⁵
- Yn ail, ar ôl cwblhau asesiad, os yw'r awdurdod yn fodlon bod gan y plentyn anghenion gofal a/neu gymorth, yna mae'n rhaid i'r awdurdod benderfynu a yw unrhyw rai o'r anghenion hyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra.²⁶
- Yn drydydd, os yw anghenion plentyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra, yna mae'n rhaid i'r awdurdod ddiwallu'r anghenion hynny trwy ddarparu cymorth mewn amryw o ffyrdd.²⁷

3.2 Beth yw pwrpas asesiad?

Pwrpas asesiad yw canfod a oes gan eich plentyn anghenion gofal a chymorth; pa wasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth, os o gwbl, ddylai gael eu darparu i ddiwallu'r anghenion;²⁸ a phwy sydd yn y sefyllfa orau i'w darparu nhw.

Er y bydd yr awdurdod lleol ei hun yn gyfrifol am gydgysylltu'r asesiad yn y rhan fwyaf o'r achosion, mae'n debygol y bydd asiantaethau eraill yn cymryd rhan, megis iechyd ac addysg.

3.3 Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chofnodi yn yr asesiad?

Mae'n rhaid i asesiadau gofnodi o leiaf swm penodol o wybodaeth pan ystyrir bod anghenion unigolyn yn gymwys a bod angen llunio cynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth ar gyfer gofalwr). Mae'r Gyfres Data Craidd²⁹ yn cynnwys y canlynol:

- Rhif GIG
- Teitl
- Cyfenw

25 S21(1)

26 S32(1)(a)

27 S34

28 S21(1)(b)

29 Rhan 2 Cod, para 59

- Enw (au) cyntaf
- Enw a ffefrir
- Cyfeiriad a chod post
- Dyddiad geni
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Rhywedd
- Enw a chyfeiriad y meddyg teulu
- Enw a chyfeiriad yr ysgol
- Galwedigaeth
- Pa asesiadau eraill sydd wedi eu cynnal gan asiantaethau?
- Iaith a ffefrir/dull cyfathrebu/gofynion hygyrchedd
- Enw(au) gofalwr(wyr)/pobl â Chyfrifoldeb Rhiant
- Perthynas
- Manylion cysylltu â gofalwr(wyr)/pobl â Chyfrifoldeb Rhiant
- A yw'r plentyn hwn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?
- Manylion cysylltu â'r Cydgysylltydd Asesu Arweiniol
- Manylion cysylltu â'r Cydgysylltydd Arweiniol
- Cymerwyd yr wybodaeth gan (enw)
- Sefydliad
- Dyddiad

Mae Adran 3.9 ar dudalen 17 yn nodi'r hyn sy'n ofynnol mewn asesiad yn fanylach.

3.4 Sut alla i ofyn am asesiad o anghenion fy mhleintyn

Erbyn hyn nid oes angen ichi wneud cais am asesiad o anghenion eich plentyn. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu eich plentyn ar sail ymddangosiad angen yn unig³⁰ Mae hwn yn ddatblygiad newydd o dan y Ddeddf, gan nad

oedd unrhyw ddyletswydd statudol amlwg i asesu o dan y ddeddfwriaeth flaenorol. O ran plant anabl, tybir bod ganddynt anghenion gofal a chymorth ychwanegol/amgen, felly mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad yn awtomatig. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys faint bynnag o gymorth neu'r math o gymorth sydd ei angen ar y plentyn, ac nid yw sefyllfa ariannol y plentyn neu'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant yn effeithio ar hyn.

Os nad oes asesiad wedi ei gynnal a'ch bod chi o'r farn y dylai eich plentyn gael ei asesu, yna dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol ar y ffôn neu yn ysgrifenedig (trwy e-bost neu'r post) yn gofyn am asesiad o anghenion eich plentyn a'ch teulu. Fel arall, gallech ofyn i weithiwr proffesiynol sy'n rhan o ofal eich plentyn, fel meddyg teulu eich plentyn, wneud cais i'r awdurdod lleol ar eich rhan. Yn y naill achos neu'r llall, dylech esbonio pa broblemau yr ydych yn eu cael a'r hyn yr ydych yn dymuno cael cymorth ag ef (ac o bosibl, y math o gymorth y byddech yn hoffi ei gael). Dylech gyfeirio eich cais i adran Gwasanaethau Plant eich awdurdod lleol (gan gofio y gallai fod gan yr adran enw ychydig yn wahanol yn dibynnu ar yr awdurdod lleol lle'r ydych yn byw). Dylech fod yn gallu dod o hyd i'r manylion cyswllt yn eich cyfeirlyfr ffôn lleol neu ar y rhyngwrwyd (dylai fod gan yr awdurdod lleol y manylion cyswllt ar ei wefan).

Dylai'r llythyr i'r awdurdod lleol esbonio bod gan eich plentyn anabledd, gan roi manylion yr anabledd hwnnw (gan gynnwys unrhyw ddiagnosis y mae eich plentyn wedi ei gael). Os oes gennych gadarnhad ysgrifenedig o ddiagnosis eich plentyn, dylech gynnwys copi o hwn gyda'ch llythyr. Dylai eich meddyg teulu fod yn gallu darparu cadarnhad o gyflwr eich plentyn.

Dylech esbonio eich bod wedi cael eich cyngori, o ystyried anabledd eich plentyn, bod ganddo anghenion gofal a chymorth o dan adran 21 o'r Ddeddf ac mae hynny'n golygu bod gan eich plentyn yr hawl i gael asesiad o'i anghenion.

Er ei bod yn ymddangos nad oes gofyniad

statudol i'r awdurdod lleol ddatgan a fydd yn cynnal asesiad, mae egwyddorion cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi gwybod i chi heb oedi a fydd yn gwneud hynny ai peidio (ac os na fydd, pam ei fod yn ystyried nad oes angen gwneud hynny). Dylech gynnwys yn eich llythyr y dyddiad yr ydych yn dymuno cael ymateb i'ch cais, gan roi eich manylion cyswllt (cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost ac ati). Nodwch y dyddiad hwn yn eich dyddiadur a byddwch yn barod i ffonio'r awdurdod lleol os nad ydych wedi cael ateb.

3.5 A yw'n ofynnol i fy awdurdod lleol gynnal asesiad?

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdod lleol asesu plant ag anghenion gofal a chymorth. Fel y nodir uchod, caiff y ddyletswydd hon ei sbarduno gydag ymddangosiad angen.³¹ Tybir yn awtomatig bod angen gofal a chymorth ar blant anabl yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth a ddarperir gan eu teulu.³²

Yn unol â hynny, os yw eich plentyn yn anabl, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal asesiad i nodi ei anghenion ac anghenion y teulu yn fwy cyffredinol. Os ydych chi'n ysgrifennu i wneud cais am asesiad, gwnewch yn siŵr eich bod yn esbonio pam yr ydych chi'n ystyried bod gan eich plentyn anghenion gofal a chymorth a/neu gadarnhau bod gan eich plentyn anabled.

3.6 A yw fy awdurdod lleol yn cael gwrthod cynnal asesiad os nad oes gan fy mhentyn ddiagnosis meddygol?

Ni chaiff awdurdod lleol wrthod cynnal asesiad os nad oes diagnosis meddygol. Mae hyn oherwydd bod dyletswydd ar awdurdodau i asesu unrhyw blentyn y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth. Er y tybir bod gan

blentyn anabl anghenion gofal a chymorth yn ychwanegol at y rhai y mae ei deulu yn darparu ar eu cyfer³³ ac felly bod ganddo hawl awtomatig i gael asesiad, nid yw hyn yn eithrio plentyn heb ddiagnosis rhag yr hawl i gael asesiad. Nid oes gofyniad felly i ddiagnosis meddygol gael ei gyflwyno cyn cynnal asesiad.

Os oes unrhyw anhawster wrth sefydlu ei bod yn bosibl bod gan blentyn anghenion gofal a chymorth, gallai cael diagnosis meddygol gan eich meddyg teulu neu weithiwr meddygol proffesiynol arall fod yn ddefnyddiol i annog eich awdurdod lleol i gynnal asesiad o anghenion eich plentyn. Bydd datganiad clir gan weithiwr meddygol proffesiynol o anabled eich plentyn yn sefydlu'r dybiaeth bod angen gofal a chymorth, a bydd yn aml yn werthfawr iawn yn y broses o gael y cymorth cywir ar yr adeg cywir.

Os ystyrir ei bod yn afresymol gwrthod cynnal asesiad gallai hynny fod yn sail i gwyn, neu hyd yn oed gamau cyfreithiol (gweler [adran 8 ar dudalen 36](#)).

3.7 Beth am asesiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA)?

Mae dyletswydd penodol ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o anghenion addysgol arbennig plentyn mewn unrhyw achos pan fo'r awdurdod o'r farn bod gan y plentyn anghenion o'r fath. Ceir arweiniad pellach o ran pryd yr ystyrir bod gan blentyn anhawster neu anabled dysgu at y dibenion hyn yn ein canllaw [Addysg yng Nghymru](#) (gweler yr [Adran adnoddau ar dudalen 39](#)).

31 S21(1)
32 S21(7)

33 S21(7)

3.8 A oes unrhyw ganllawiau llywodraeth ynghylch asesiadau?

Mae 'codau canllawiau' statudol i'r Ddeddf, ac mae gan bob Rhan o'r Ddeddf ei god ei hun fel arfer. Mae cod ymarfer yn cyd-fynd â Rhan 3 o'r Ddeddf, sef 'Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion)'.³⁴ Mae'r Cod Ymarfer hwn yn darparu canllawiau ar y pum elfen asesu ac yn esbonio'r egwyddorion sy'n sail i asesu plant (gweler **adran 3.9** isod). Cyfeirir at y ddogfen hon isod fel 'Rhan 3–Cod'. O ran asesu **plant sy'n derbyn gofal**, ceir canllawiau hefyd yn Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyng Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya).³⁵

3.9 Pa faterion y dylid eu hystyried yn rhan o asesiad?

Yn yr asesiad o anghenion mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol wneud y canlynol:

1. Asesu anghenion datblygu'r plentyn;
2. Ceisio nodi'r canlyniadau y mae'r plentyn (a rhieni'r plentyn) yn dymuno eu cyflawni;
3. Asesu a fydd darparu'r canlynol yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny, ac i ba raddau:
 - ◆ Gofal a chymorth,
 - ◆ Gwasanaethau ataliol, neu
 - ◆ Gwybodaeth, cyngor neu gymorth.
4. Asesu a fyddai unrhyw beth arall yn gallu cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac i ba raddau; a
5. Ystyried unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar lesiant y plentyn.³⁶

Er ei bod yn ofynnol i'r awdurdod ystyried y ffactorau hyn, yr awdurdod fydd yn penderfynu sut y bydd yn gwneud hynny, h.y. yr awdurdod fydd yn penderfynu ar yr hyn sy'n 'gymesur'. Yn y cyd-destun hwn, cymesuredd fydd yn pennu pa mor eang a dwys fydd yr asesiad, ac nid a fydd asesiad yn cael ei gynnal ai peidio.

Ar ôl cwblhau'r asesiad, os yw'r awdurdod yn fodlon bod gan y plentyn anghenion gofal a/ neu gymorth, mae'n rhaid iddo benderfynu a yw unrhyw un o'r anghenion hyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Pan fo anghenion plentyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra mae'n rhaid i'r awdurdod ddiwallu'r anghenion hynny trwy ddarparu cymorth mewn amrywiaeth o ddulliau (gweler **adran 4 ar dudalen 21**).³⁷

Mae'n rhaid i asesiadau ystyried y canlynol hefyd, y gellid cyfeirio atynt fel y 'pum elfen allweddol',³⁸ ac mae'n rhaid llunio dadansoddiad wedi'i strwythuro o amgylch y pum elfen hyn:³⁹

1. Amgylchiadau'r plentyn;
2. Canlyniadau personol y plentyn;
3. Unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau;
4. Y risgiau i'r plentyn neu eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny;
5. Cryfderau a galluoedd y plentyn.⁴⁰

Mae'r canllawiau'n nodi ei bod yn ofynnol ystyried pob un o'r pum elfen hyn yn ystod yr asesiad a phenderfynu a oes angen diwallu pob un o'r anghenion a nodir trwy ddarparu gofal a chymorth.⁴¹

Ceir rhagor o fanylion ar y pum elfen hyn yn Atodiad 1 i Ran 3 o'r Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion) (gweler yr **Adran adnoddau ar dudalen 39**). Mae rhai o'r enghreifftiau a roddir yn yr Atodiad yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr:

34 Rhan 3 – Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion):: <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part3en.pdf>

35 <http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt6en.pdf>

36 S21(4)(1)(a)-(e)

37 S32

38 Rhan 3–Cod, para 61 ymlaen

39 Rhan 3–Cod, para 55

40 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliad 4

41 Rhan 3 Cod, para 6

Elfen 1: Amgylchiadau'r plentyn

Enghreifftiau o anghenion sy'n codi:

- anallu i gyflawni gofal personol sylfaenol (gan gynnwys cynnal safon resymol o iechyd, cyflawni gweithgareddau sylfaenol o gwmpas y tŷ);
- annhebygol o gyflawni amcanion datblygu (gan gynnwys anallu i gynnal/datblygu perthynas deuluol; anallu i gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau teuluol a chymdeithasol; systemau cymorth mewn perygl ac ati).

Elfen 2: Canlyniadau personol y plentyn

Mae'r canlyniadau yn unigryw i bob plentyn ond byddant yn gysylltiedig â chanlyniadau llesiant cenedlaethol (a ddiffinnir fel canlyniadau sydd 'i'w cyflawni o ran llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt') a nodir yn y datganiad llesiant. Mae'r datganiad yn cynnwys y ddiffiniadau canlynol o'r hyn y mae llesiant yn ei olygu:⁴²

- sicrhau hawliau (e.e. gwybod ble i gael cymorth a chefnogaeth; sicrhau gwrandawriad);
- iechyd corfforol ac iechyd meddwl, llesiant emosiynol, datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol (e.e. bod yn iach ac yn egniol, bod yn hapus, cael y gofal a'r cymorth cywir mor fuan â phosibl);
- cael ei amddiffyn rhag cael ei gam-drin a'i esgeuluso (e.e. bod yn ddiogel a chael ei amddiffyn a gwybod wrth bwy i sôn am bryderon);
- addysg, hyfforddiant a hamdden (e.e. dysgu a datblygu i'w botensial llawn a gwneud pethau sy'n bwysig i chi);
- perthynas ddomestig, deuluol a phersonol (e.e. perthyn, cyfrannu at berthynas ddiogel

⁴² Datganiad llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150722wellbeingen.pdf>

ac iach);

- cyfrannu at gymdeithas (gwneud cyfraniad a theimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi);
- llesiant cymdeithasol ac economaidd (dewis pwy i dreulio amser gyda nhw, dim byw mewn tlodi, cael cymorth i dyfu i fyny a bod yn annibynnol, cael gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'n dymuno);
- llety byw addas (byw mewn tŷ priodol).⁴³

Elfen 3: Unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny

Mae hyn yn golygu ystyried pethau sy'n atal eich plentyn rhag cyflawni ei ganlyniadau a gall gynnwys rhywbeth sy'n gysylltiedig â chyflwr neu amgylchiadau eich plentyn, neu rywbeth sydd y tu hwnt i reolaeth eich plentyn.

Elfen 4: Y risgiau i'r plentyn neu eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny

Cynhelir gwerthusiad o risg wrth benderfynu a oes angen gofal a chymorth. Dylai hyn fod yn gydbwysedd rhwng sicrhau nad yw iechyd a diogelwch y plentyn mewn perygl a chwtogi dewis, ymreolaeth ac annibyniaeth y plentyn.

Elfen 5: Cryfderau a galluoedd y plentyn

Mae hyn yn golygu ystyried sgiliau, gallu, cymorth a'r deunyddiau sydd ar gael i blentyn o'r tu mewn iddo ef ei hun, ei deulu a'i gymuned, y gellir eu defnyddio i ddiwallu ei anghenion. Dylai'r asesiad nodi'r adnoddau hyn, galluogi'r plentyn i wneud y defnydd gorau ohonynt a sicrhau ei fod yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni amcanion personol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r aseswr gydnabod bod anghenion pobl yn newid dros amser a bod angen rhagweld newidiadau o'r fath yn yr asesiad.⁴⁴

⁴³ Datganiad llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt: <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150722wellbeingen.pdf>

⁴⁴ Rhan 3—Cod, Atodiad 1: Canllawiau ar y Pum Elfen o Asesu

3.10 Pwy fydd yn rhan o'r asesiad a sut y bydd yn cael ei gynnal?

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr asesiad sicrhau bod unigolyn penodol yn gyfrifol am gydgysylltu a chynnal yr asesiad.⁴⁵ Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod gan unrhyw unigolyn sy'n cynnal yr asesiad y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad a'i fod wedi derbyn yr hyfforddiant gofynnol.⁴⁶ Mae'r canllawiau yn nodi y byddai aseswr priodol yn cynnwys, er enghraifft, ymarferwr gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol cofrestredig sydd â chymhwyster proffesiynol ar lefel 5 neu uwch, neu unigolyn sydd â chymhwyster gofal cymdeithasol ar lefel 4 neu uwch.⁴⁷

Ar ben hyn, wrth gynnal asesiad, mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried a yw'r math o anghenion sydd gan y plentyn yn galw am gyfranogiad unigolyn â sgiliau, gwybodaeth neu arbenigedd arbenigol.⁴⁸

Os oes angen i unigolyn o'r fath gymryd rhan, bydd yn ofynnol i'r awdurdod ymgynghori ag unigolyn felly neu drefnu i'r unigolyn hwnnw gynnal yr asesiad ei hun.⁴⁹

Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gweithiwr cymdeithasol o'r awdurdod lleol yn arwain y gwaith o gydgysylltu'r asesiad o anghenion eich plentyn, er y bydd gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill o bosibl yn cymryd rhan hefyd.

Mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol wrth gwrs gyfarfod â chi a'ch plentyn yn ogystal ag unigolion allweddol eraill (fel aelodau eraill o'ch

teulu) a gallai fod angen iddo gyfarfod â chi nifer o weithiau.

3.11 A fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i fy marn i a barn fy mhentyn?

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r asesiad, i'r graddau y mae hynny'n resymol ymarferol, ofyn beth yw barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn.⁵⁰ Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r asesiad hefyd hybu a pharchu urddas y plentyn, ystyried ei nodweddion, ei ddiwylliant a'i greddau, a darparu cymorth priodol i alluogi'r plentyn i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdano.⁵¹ Bydd yr egwyddorion hyn yn gymwys i asesiad gofalwr, ond hefyd, mae'n rhaid i awdurdod lleol ddechrau o'r safbwynt mai'r **oedolyn** sydd yn y sefyllfa orau i farnu ei les ei hun.⁵²

Mae'n rhaid i asesiad eich plentyn gynnwys eich plentyn ac unrhyw unigolyn sydd â **chyfrifoldeb rhiant**,⁵³ ac mae'n rhaid ystyried pwysigrwydd hybu magwraeth y plentyn gan ei deulu (i'r graddau y mae hyn yn cyd-fynd â llesiant y plentyn).⁵⁴ Bydd eich barn yn bwysig iawn a dylech gael eich

annog i gyfrannu i'r broses. Os ydych yn dymuno i ffrind, eiriolwr neu berthynas eich cefnogi yn ystod yr asesiad, dylid trefnu hyn.⁵⁵ Mae'n rhaid i'r asesiad ymdrin â'r agweddau canolog neu fwyaf pwysig o anghenion y plentyn a'ch gallu chi fel rhiant (rhieni) i ymateb yn briodol i'r anghenion hyn o fewn y teulu ehangach a chyd-destun y gymuned.⁵⁶

Mae'n rhaid i'ch plentyn gael ei weld at ddibenion yr asesiad. Bydd hyn yn cynnwys arsylwi ar y plentyn a chyfathrebu gyda'r plentyn mewn

45 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliad 2

46 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliad 3

47 Rhan 3 Cod, para 43

48 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliad 2

49 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliad 3

50 S6(2)(a)

51 S6(2)(b)-(d)

52 S6(3)(a)

53 S6(4)(b); a Rhan 3 Cod, paragraffau 15 a 23

54 S6(4)(a)

55 Rhan 3 Cod, para 13

56 Rhan 3 Cod, para 25

modd sy'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth. Dylid dweud wrth eich plentyn hefyd, mewn modd sy'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth, pam mae'r asesiadau hyn yn cael eu cynnal a dylai gael ei annog i fod yn rhan o'r broses asesu. Dylai'r rhai hynny sy'n gyfrifol am gynllunio'r asesiad ystyried a oes gan eich plentyn neu aelod arall o'r teulu unrhyw anghenion cyfathrebu ac os felly, sut y gellid diwallu'r rhain. Mae'r canllawiau yn y Cod Ymarfer yn pwysleisio'r ffaith y dylai asesiadau ganolbwyntio ar y plentyn⁵⁷ a bod buddion pennaf a lles y plentyn yn cael eu bodloni.⁵⁸ Mae'r canllawiau yn nodi bod gwaith uniongyrchol gyda phlant yn ystod asesiad yn bwysig er mwyn gwybod beth yw eu dymuniadau a'u teimladau.⁵⁹

Ar gyfer plant dan 16 oed, mae'r canllawiau'n nodi y dylai'r asesiad bennu ac ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau unigolion â **chyfrifoldeb rhiant** am y plentyn i'r graddau y mae hyn yn rhesymol ymarferol ac yn gyson â hybu llesiant y plentyn.⁶⁰

3.12 Faint o amser ddylai asesiad gymryd?

Mae ymateb awdurdod lleol i gyswllt neu atgyfeiriad cyntaf sy'n gofyn am gymorth yn hynod o bwysig.⁶¹ Mae'r canllawiau yn nodi bod ymateb yn brydlon i anghenion plentyn yn hanfodol.⁶² Mae'n rhaid bod gan awdurdod strwythurau ar waith i sicrhau ymateb effeithiol, hygyrch a chyflym i blant a'u teuluoedd.

Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r asesiad yw uchafswm o 42 diwrnod gwaith o'r adeg atgyfeirio.⁶³ Mae'r canllawiau'n nodi na ddylai cwblhau asesiad cynhwysfawr o fewn 42 diwrnod gwaith gael blaenoriaeth dros yr ystyriaeth o'r hyn sy'n digwydd ym mywyd

- 57 Rhan 3 Cod, para 69
- 58 Rhan 3 Cod, para 76
- 59 Rhan 3 Cod, para 74
- 60 Rhan 3 Cod, para 75
- 61 Rhan 3 Cod, para 78
- 62 Rhan 3 Cod, para 34
- 63 Rhan 3 Cod, para 78

y plentyn a pha gamau uniongyrchol sy'n ofynnol, waeth pa mor anodd neu gymhleth yw amgylchiadau'r plentyn.⁶⁴ Y mater allweddol, yn y cyd-destun hwn, yw "rhesymoldeb". A yw'r amser a gymerir yn rhesymol? Os yw'r angen yn un brys, dylid cynnal y broses asesu yn gyflym. Os yw'r angen yn gymhleth ond heb fod yn un brys, gall gymryd mwy o amser wrth gwrs – yn enwedig os oes angen cynnal cyfarfodydd â llawer o weithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn achosion o'r fath, gallai awdurdod lleol weithredu rhan o'r cynllun gofal fel mesur byrdymor.

Waeth beth yw amserlen yr asesiad, ni ddylai gweithwyr cymdeithasol aros nes ei fod wedi dod i ben cyn comisiynu gwasanaethau ac mewn rhai achosion, bydd anghenion y plentyn yn golygu bod angen cynnal asesiad cyflym.

Golyga hyn nad yw'r un amserlen yn addas ar gyfer pob asesiad; bydd yr hyn sy'n rhesymol yn cael ei benderfynu gan anghenion penodol eich plentyn, a allai ymddangos dros amser yn ystod y broses asesu. Er hynny, mae'r canllawiau yn nodi (fel y nodir uchod) amserlen o uchafswm o 42 diwrnod o'r adeg atgyfeirio. Mae'n hanfodol cofio mai terfyn pellaf yw hwn ac nid targed; bydd methu â chydymffurfio â'r amserlen o 42 diwrnod, heb reswm da iawn, yn sail ar gyfer cwyn a gallai arwain at gamau cyfreithiol o bosibl yn erbyn yr awdurdod lleol dan sylw. Os ydych o'r farn bod oedi, oherwydd nad yw'r awdurdod lleol yn gweithredu â diwydrwydd dyladwy, dylech ystyried gwneud cwyn am hyn (gweler **adran 8 ar dudalen 36**).

Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn glir na chaiff y broses asesu barhau heb ei gwirio dros gyfnod hir heb ddadansoddi'r hyn sy'n digwydd a pha gamau y mae angen eu cymryd, waeth pa mor anodd neu gymhleth yw amgylchiadau'r plentyn.

Ar ôl cwblhau'r gwaith asesu, dylech chi (ac os yw'n briodol, eich plentyn) gael gwybod yn ysgrifenedig a/neu mewn cyfrwng mwy priodol

- 64 Rhan 3 Cod, para 34

arall, am y penderfyniad a wnaed. Dylech gael cyfle i gofnodi eich safbwyntiau, gan gynnwys unrhyw anghytuno, a chewch ofyn bod cywiriadau'n cael eu gwneud i'r wybodaeth a gofnodwyd. Dylech gael cynnig copi o'r cofnod.⁶⁵

3.13 Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r gweithiwr cymdeithasol gael yr holl wybodaeth berthnasol?

Pan fydd yr awdurdod lleol wedi casglu'r wybodaeth berthnasol bydd yn rhaid i'r awdurdod benderfynu a yw 'anghenion' y plentyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra, ac os felly, pa ofal a chymorth fydd ar gael i ymdrin â'r anghenion hynny.

Os nad ydych chi'n cytuno ag unrhyw un o ganfyddiadau'r asesiad, dylech gael cyfle i gofnodi eich barn ar gofnod yr asesiad.

3.14 Sut fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a yw anghenion fy mhlentyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra?

Pan fydd yr wybodaeth berthnasol wedi ei chasglu bydd yr awdurdod yn penderfynu a yw anghenion y plentyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra.⁶⁶ Mae'r rheoliadau yn darparu ar gyfer pedwar cam yn y broses hon, fel a ganlyn:

Cam 1: A yw'r angen yn codi am reswm penodol?

Mae angen plentyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra os yw'r angen yn codi **naill ai**:

- o afiechyd corfforol neu feddyliol y plentyn, ei oedran, ei anabledd, ei ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu amgylchiadau tebyg eraill;⁶⁷ **neu**

65 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliad 6(2)

66 S32(1)

67 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 Rheoliad 4(a)(i)

- bod yr angen yn un sy'n debygol o gael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn os na chaiff ei fodloni.⁶⁸

Cam 2: A yw'r angen yn gysylltiedig â gweithgareddau allweddol penodol?

Bydd angen y plentyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra os yw'n gysylltiedig ag un neu fwy o'r canlynol:

- Y gallu i gyflawni arferion hunanofal (gweler y diffiniad o 'hunanofal' isod) neu arferion domestig;
- Y gallu i gyfathrebu;
- Ei amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod;
- Ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu mewn gweithgareddau hamdden;
- Cynnal neu ddatblygu perthynas â theulu neu berthynas bersonol arall o bwys;
- Datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned; neu
- Gyflawni nodau datblygu.⁶⁹

Y diffiniad o 'hunanofal' a geir yn y rheoliadau yw "tasgau y mae person yn eu cyflawni fel rhan o fywyd beunyddiol gan gynnwys":

- Bwyta ac yfed;
- Cynnal hylendid personol;
- Codi a gwisgo amdano;
- Symud o gwmpas y cartref;
- Paratoi prydau bwyd;
- Cadw'r cartref yn lân, yn ddiogel ac yn hylan.⁷⁰

68 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 Rheoliad 4(a)(ii)

69 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 Rheoliad 4(b)

70 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 Rheoliad 1(3)

Cam 3: Nid yw rhieni'r plentyn yn gallu (neu maent yn anfodlon) diwallu'r angen hwnnw?

Mae'r angen yn un nad yw'r plentyn na'i rieni yn gallu ei ddiwallu naill ai:

- Ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd;
- Gyda chymorth eraill sy'n fodlon darparu gofal a'r cymorth; neu
- Gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae'r plentyn neu ei rieni yn gallu bod yn rhan ohoni.⁷¹

Mae'r elfen hon, i bob pwrpas, yn golygu nad yw'r plentyn yn gymwys os yw ei ofalwr yn nodi ei fod yn barod i ddarparu cymorth. Mae felly'n hanfodol, er mwyn atal y sefyllfa hon rhag codi, i rieni sy'n gofalu nodi'n glir nad ydynt yn gallu (ac felly nad ydynt yn fodlon dan gam 3) darparu gofal oni fydd yr awdurdod lleol wedi pennu yn gyntaf bod y plentyn mewn angen yn gymwys. Wedyn, a dim ond wedyn, y byddant yn gallu (ac felly'n barod) i drafod gyda'r plentyn mewn angen a'r awdurdod fath a maint y gofal (os o gwbl) y byddai'n fodlon ei ddarparu. Os yw rhiant yn esbonio hyn yn glir yn ystod y broses asesu, yna bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ddod i'r casgliad bod y plentyn yn gymwys (cyhyd â bod y tri cham arall wedi eu bodloni hefyd). Os na nodir hyn, mae perygl yr ystyrir nad yw'r plentyn yn addas ar gyfer unrhyw ofal a chymorth.

Cam 4: Ai dim ond gan yr awdurdod lleol sy'n darparu/trefnu'r gwasanaethau cymorth neu'r Taliadau Uniongyrchol y gellir diwallu'r angen?

I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod plentyn yn annhebygol o gyflawni un neu fwy o amcanion

71 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 Rheoliad 4(c)

personol y plentyn oni bai bod yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth i ddiwallu'r angen (gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol).⁷² Enghraifft o hyn fyddai teulu sydd mewn risg o chwalu oherwydd bod y fam yn cael trafferthion i ymdopi ag ymddygiad heriol un o'r plant. Os nad yw amgylchiadau'r teulu'n gwella, er gwaethaf cael cyngor ar reoli ymddygiad a gwella amodau byw yn y cartref, yna nid yw'r teulu'n diwallu ei anghenion a'i ganlyniadau ei hun. Golyga hyn y bydd y teulu yn bodloni'r meini prawf cymhwysra gan nad yw'n diwallu ei anghenion a'i ganlyniadau ei hun heb i'r awdurdod ddarparu gofal a chymorth.⁷³

Prawf 'yn gallu, a dim ond yn gallu'

Dyweddodd Llywodraeth Cymru i ddechrau fod y meini prawf uchod yn creu prawf 'yn gallu, a dim ond yn gallu'. Denodd hyn feirniadaeth sylweddol, gan gynnwys yr awgrym bod hyn yn golygu bod angen i unigolion brofi eu bod wedi rhoi cynnig ar wasanaethau cymorth cymunedol cyffredinol (a bod y rhain wedi methu) cyn y gallent gael cymorth unigol (fel Taliadau Uniongyrchol). Gwrthodwyd y dadansoddiad hwn yn gryf gan Weinidog y Llywodraeth a gadarnhaodd nad oes angen i unigolion ddangos yn drylwyr eu bod wedi ceisio chwilio am bob math arall posibl o gymorth cyn bod yn gymwys i gael cymorth gan yr awdurdod. Cadarnhaodd y Gweinidog mai cyfrifoldeb yr aseswr yw hyn yn bendant, ac nid yr unigolyn sy'n cael ei asesu.

Caiff y safbwynt hwn ei ailddatgan yn y canllawiau fel a ganlyn, 'ni cheir defnyddio'r meini prawf fel offeryn i ofyn i unigolion ddangos eu bod wedi rhoi cynnig ar bob math arall posibl o gymorth cyn bod yn gymwys i gael cymorth gan yr awdurdod lleol'.⁷⁴ A hefyd, 'cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw nodi a chofnodi (...) sut y caiff y canlyniadau personol eu cyflawni'.⁷⁵

72 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 Rheoliad 4(d)

73 Rhan 4 Cod Ymarfer (diwallu anghenion), Atodiad I

74 Rhan 4 Cod, para 32

75 Rhan 4 Cod, para 33

O ystyried cymhlethdod y maes hwn, mae'n debygol y bydd yn synhwyrol i rieni ofyn am gyngor cyfreithiol pan fo'n aneglur a yw'r awdurdod lleol wedi defnyddio'r meini prawf cymhwysra yn briodol. Fodd bynnag, ni cheir defnyddio'r **meini prawf cymhwysra** i wrthod asesiad angen cychwynnol.

Gallai'r enghreifftiau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ddangos pryd y bydd defnydd awdurdod o'r **meini prawf cymhwysra** yn gyfreithiol a phryd na fyddant yn gyfreithiol:

- Mae eich awdurdod lleol yn gwrthod cynnal asesiad o anghenion gofal cymdeithasol eich plentyn oherwydd ei fod yn hawlio mai dim ond plant ag "anableddau difrifol" sy'n gymwys i gael asesiad.

Bydd hyn yn anghyfreithlon. Mae'r ddyletswydd i asesu yn orfodol os yw'n 'bosibl' bod gan y plentyn angen am ofal a/neu gymorth.⁷⁶

- Mae eich awdurdod lleol yn cynnal asesiad o anghenion gofal cymdeithasol eich plentyn, ac yn rhoi gwybod i chi ei fod yn fodlon bod eich plentyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra a bod angen iddo ddarparu cymorth ymarferol i'ch plentyn yn y cartref. Fodd bynnag, mae'n dweud na fydd y cymorth yn cael ei ddarparu oherwydd bod adnoddau yn gyfyngedig ac oherwydd nad yw anghenion eich plentyn yn ddigon difrifol i'r cymorth hwnnw fod yn angenrheidiol.

Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon. Pan fydd awdurdod lleol wedi bodloni ei hun bod gwasanaethau penodol yn angenrheidiol, mae dyletswydd arno i'w darparu, ac ni all ddibynnu ar ystyriaethau am adnoddau neu a yw'r meini prawf yn gymwys i wrthod mynediad.

- Mae eich awdurdod lleol yn cynnal asesiad o anghenion gofal cymdeithasol eich plentyn ac yn rhoi gwybod i chi, er bod gan eich plentyn anghenion gofal a chymorth,

nad yw eich plentyn yn gymwys gan fod yr anghenion yn cael eu diwallu gennych chi fel rhiant ofalwr, a'u bod yn cau'r ffeil.

Mae hyn yn debygol o fod yn gyfreithlon. Os ydych chi ar ôl hyn yn methu â darparu'r gofal i'ch plentyn, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ailasesu'r sefyllfa. I osgoi hyn, mewn achosion pan fo angen cymorth arnoch (ac rydych mewn perygl o fethu ag ymdopi) gallai fod angen i chi egluro, yn ystod y broses asesu, nad ydych yn fodlon neu nad ydych yn gallu darparu'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i'ch plentyn heb gael cymorth, ac y bydd hyn yn wir hyd nes y bydd yr awdurdod lleol (o leiaf) wedi penderfynu bod eich plentyn yn gymwys ac wedi esbonio i chi pa gymorth y bydd yn ei ddarparu.

3.15 A gaiff fy anghenion fy hun eu hasesu hefyd?

Asesiad eich plentyn

Yn ystod asesiad eich plentyn, dylai'r aseswr benderfynu beth yw eich safbwyntiau, eich dymuniadau a'ch teimladau, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol bosibl.⁷⁷ Un o'r egwyddorion pwysig a restrir yn y canllawiau sy'n sail i'r dull o asesu plant a'u teuluoedd yw ei bod yn ofynnol i'r asesiadau gynnwys gweithio gyda phlant a'u teuluoedd.⁷⁸

Eich asesiad eich hun

Hefyd, pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol ei bod yn bosibl bod gan ofalwr anghenion cymorth, yna mae'n rhaid i'r awdurdod gynnal asesiad⁷⁹ o'r gofalwr. Diffinnir gofalwr yn y Ddeddf fel unigolyn sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.⁸⁰

Mae'r Ddeddf yn diddymu: (1) y gofyniad i ofalwr brofi ei fod yn darparu neu'n bwriadu darparu 'gofal sylweddol yn rheolaidd'; a (2) y gofyniad

76 S21(1)

77 Rhan 3 Cod, para 75

78 Rhan 3 Cod, para 77

79 S24(1)(a)

80 S3(4); a Rhan 3 Cod, t.7, para 3

i ofalwyr 'ofyn' am asesiad, oherwydd bydd y rhwymedigaeth i gynnal asesiad yn cael ei sbarduno gan 'ymddangosiad angen'.

Mae'r ddyletswydd i asesu yn gymwys waeth beth yw barn yr awdurdod o lefel y cymorth sydd ei angen ar y gofalwr,⁸¹ neu ei sefyllfa ariannol.⁸²

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i ystyriaeth benodol gael ei rhoi i:

- Y graddau y mae'r gofalwr yn gallu, ac y bydd yn parhau i allu, darparu gofal i'r plentyn;
- Y graddau y mae'r gofalwr yn fodlon, ac y bydd yn parhau i fod yn fodlon gwneud hynny;
- Y canlyniad y mae gofalwr sy'n oedolyn yn dymuno ei gyflawni;
- Pa gymorth, gwasanaethau ataliol neu wybodaeth, cyngor neu gymorth allai gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny;
- Unrhyw faterion eraill a allai gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny;
- A yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gwneud hynny;

A yw'r gofalwr yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu unrhyw weithgaredd hamdden, neu'n dymuno gwneud hynny.⁸³

Hefyd, i ofalwyr sy'n blant eu hunain, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i roi ystyriaeth benodol i:

- Y canlyniadau y mae gofalwr sy'n blentyn yn dymuno eu cyflawni⁸⁴ (ond mae hyn yn amodol ar y ffaith ei fod i'r graddau' y mae'n 'briodol o ystyried oedran a dealltwriaeth y gofalwr'), a barn rhieni'r gofalwr ifanc am y cwestiwn hwn.⁸⁵

- Anghenion datblygu'r plentyn, ac a yw'n briodol i'r plentyn fod yn darparu'r gofal o gwbl.⁸⁶

Wrth asesu plant sy'n ofalwyr dylai'r awdurdod ystyried a yw'r gofalwr sy'n blentyn mewn gwirionedd yn blentyn a chanddo anghenion gofal a chymorth ei hun, ac a ddylai felly gael ei asesu o dan adran 21 o'r Ddeddf.⁸⁷

Fel yn achos y ddyletswydd i asesu plentyn anabl, dylai'r modd y cynhelir asesiad gofalwr fod yn 'gymesur i'r amgylchiadau'.⁸⁸ Mae cymesuredd yn ymhél â chwmpas a dyfnder asesiad ac nid yw'n cwestiynu a ddylid cynnal asesiad ai peidio: mae'r ddyletswydd i asesu (os yw'r angen yn bodoli) yn orfodol.

Wrth gynnal asesiadau mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried eich llesiant chi a llesiant eich plentyn (ewch i **adran 2 ar dudalen 9** uchod i weld y diffiniad o lesiant).

Wrth gynnal asesiad gofalwr, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eich cynnwys chi, unrhyw blentyn y mae gennych gyfrifoldeb rhiant amdano, ac unrhyw unigolyn arall yr ydych yn gofyn iddo gael ei gynnwys (e.e. aelodau eraill o'r teulu). Ar ôl cynnal yr asesiad, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi cofnod ysgrifenedig o'r canlyniad i chi, ac unrhyw unigolyn arall yr ydych yn ei nodi.⁸⁹

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried canlyniadau eich asesiad gofalwr wrth benderfynu pa wasanaethau, os o gwbl, i'w darparu i'ch plentyn ac i'ch teulu. Mae'n rhaid hefyd ystyried a oes gennych unrhyw anghenion sy'n annibynnol o anghenion eich plentyn (er enghraifft oherwydd bod gennych anabled neu salwch). Os felly, mae'n bosibl bod gennych hawl i gael eich "asesiad anghenion" eich hun o dan adran 19 o'r Ddeddf.

81 S24(3)(a)

82 S24(3)(b)

83 S24(4)(a)-(c), (e)-(f) a S24(5)(a)-(b)

84 S24(4)(d)

85 S24(4)(d)

86 S24(5)(c)

87 Rhan 3 Cod, t.7, para 6

88 S24(7)

89 S24(6); a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015, Rheoliad 6(1)

Ar ôl cynnal yr asesiad, os yw'r awdurdod yn fodlon bod gennych anghenion am 'gymorth' mae'n rhaid iddo benderfynu a yw unrhyw un o'r anghenion hynny yn bodloni'r meini prawf cymhwysra (am wybodaeth ar feini prawf cymhwysra, gweler **adran 3.9, tudalen 13**).⁹⁰ Os yw anghenion y gofalwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysra mae'n rhaid i'r awdurdod ddiwallu'r anghenion hynny trwy ddarparu cymorth mewn amrywiaeth o ffyrdd. Ceir darparu'r cymorth i'r gofalwr, ond yn fwy cyffredin, caiff ei ddarparu i'r plentyn anabl ar ffurf gofal amgen. Ystyri'r yr amrywiaeth o gymorth y ceir ei ddarparu yn **adran 4 ar dudalen 21** isod.

3.16 A gaf i wrthod asesiad?

Fel gofalwr sy'n oedolyn, cewch wrthod cael asesiad.⁹¹ Nid yw gwrthod yn eich rhwystro rhag gofyn am asesiad ar unrhyw adeg yn y dyfodol.⁹²

90	S32(1)(a)
91	S25(1)
92	S25(3)

3.17 A fydd fy asesiad i yn cael ei gyfuno ag asesiad fy mhlentyn?

Caiff awdurdod lleol gyfuno asesiad gofalwr ag asesiad y plentyn anabl, ond dim ond pan fo'r ddau yn caniatáu hyn.⁹³ Yr unig eithriad i hyn yw i blant sy'n iau nag 16 oed pan geir 'cyfuno asesiad os yw'r awdurdod yn fodlon y byddai cyfuno'r asesiadau anghenion yn cyd-fynd â llesiant y plentyn'.⁹⁴ Mae'r canllawiau'n datgan mai dim ond pan fo'r awdurdod yn ystyried y byddai 'o fudd' gwneud hynny y byddai hyn yn digwydd.⁹⁵

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddangos eu bod yn hyblyg ar y cwestiwn hwn a rhoi sylw penodol i anghenion rhieni sy'n ofalwyr y gallai asesiad ar wahân fod o fudd iddynt yn y rhan fwyaf o achosion. Byddai'n anghyfreithlon i awdurdod fabwysiadu rheol gadarn o gyfuno asesiadau bob amser.

93	S28
94	S28(6)
95	Rhan 3 Cod, para 37

4. Beth all yr awdurdod lleol ei wneud i ni?

4.1 Pa gymorth a chefnogaeth allai plentyn/teulu eu cael ar ôl asesiad?

Mae amrywiaeth o wahanol wasanaethau gofal cymdeithasol y gallai awdurdodau lleol eu darparu i blant anabl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llety mewn cartref gofal, cartref plant neu fath arall o safle;
- gofal a chymorth gartref neu yn y gymuned;
- gwasanaethau, nwyddau a chyfleusterau;
- gwybodaeth a chyngor;
- cwnsela ac eiriolaeth;
- gwaith cymdeithasol;

- taliadau (gan gynnwys taliadau uniongyrchol);
- cymhorthion ac addasiadau;
- therapi galwedigaethol.⁹⁶

Mae hon yn rhestr sy'n dangos y 'ffyrdd y gall awdurdod lleol eu defnyddio i ddiwallu anghenion', ac mae gwasanaethau penodol a geir mewn hen ddeddfwriaeth⁹⁷ yn debygol o fod yn berthnasol i'r penawdau hyn.

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod angen cymorth a chefnogaeth ar eich teulu yna mae'n rhaid iddo benderfynu pa fath o gymorth

96	S34(2)
97	S2 Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970; a Ss21/29 Deddf Cymorth Gwladol

a chefnogaeth y dylid eu rhoi.⁹⁸ Bydd y math o gymorth a chefnogaeth a gynnigir i chi a'ch teulu yn dibynnu ar yr anghenion a aseswyd.

Gallai gofal a chymorth gartref neu mewn lleoliad cymunedol gynnwys y canlynol:

- Cymorth ymarferol yng nghartref y teulu fel cymorth yn y cartref, gofal personol, offer a gwasanaeth gwarchod;
- Gwasanaethau yn y gymuned fel canolfan ddydd, clwb ar ôl ysgol, cynllun chwarae yn ystod y gwyliau ac ati;
- Teithio a chymorth arall i helpu eich plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel hamdden neu addysg;
- Addasiadau i'r cartref.

Pan fo'r angen wedi cael ei asesu yn un cymwys, mae'r Ddeddf⁹⁹ a'r rheoliadau perthnasol¹⁰⁰ a'r canllawiau¹⁰¹ yn galluogi'r rhiant i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud taliad uniongyrchol yn hytrach na threfnu'r gofal angenrheidiol.

Os ydych chi neu eich teulu yn ei chael yn anodd ymdopi, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried pa gymorth sydd ei angen. Gallai hyn olygu eich bod yn cael gwasanaethau a elwir yn 'ofal seibiant' neu 'ofal seibiant byr'. Er y gellid disgrifio'r gwasanaethau hyn yn rhai ar eich cyfer chi a'ch teulu, gwasanaethau ar gyfer eich plentyn anabl ydynt mewn gwirionedd gan fod y gwasanaethau hyn yn eich helpu chi a'ch teulu i gefnogi eich plentyn. Maent hefyd yn helpu i ymdrin ag angen eich plentyn i fod yn rhan o deulu nad yw'n cael ei rwygo oherwydd y pwysau o ofalu am blentyn anabl.

Mae seibiant tymor byr yn cynnwys darparu 'gwasanaeth gwarchod' (h.y. rhywun i ofalu am eich plentyn yn eich cartref), gwasanaeth dros nos 'yn eich cartref' neu fod eich plentyn yn

treulio amser mewn cyfleuster gofal dydd yn y gymuned. Gallai seibiant o'r fath hefyd gynnwys bod eich plentyn yn treulio amser mewn llety preswyl. Trafodir darparu llety i'ch plentyn dros dro (fel 'gofal seibiant' neu 'seibiant byr'), neu ar sail hirdymor yn adran **4.4 ar dudalen 23**.

Mae'n rhaid nodi'r cymorth a'r gefnogaeth sydd i'w rhoi i'ch plentyn a'ch teulu mewn cynllun gofal (y gellir cyfeirio ato hefyd yn 'gynllun cymorth'¹⁰²). Dylid trafod cynnwys y cynllun gofal a chytuno arno gyda chi,¹⁰³ ac mae'n rhaid i chi a'ch plentyn fod yn rhan o'r gwaith o baratoi (ac, os oes angen, adolygu a diwygio) y cynllun gofal.¹⁰⁴ Os cewch wybod na chaiff unrhyw wasanaethau neu gymorth eu darparu ar eich cyfer chi a/neu eich plentyn efallai y byddwch yn dymuno gwneud cwyn am hyn.

4.2 Pryd mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu'r cymorth a'r gefnogaeth?

Mae'r Ddeddf yn cryfhau hawliau rhai plant anabl i gael cymorth gan ei bod yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer pob plentyn y gofal a'r cymorth y nodwyd yn yr asesiad sydd eu hangen arnynt, neu er mwyn eu hamddiffyn rhag niwed.¹⁰⁵

Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn nodi nad yw'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion plentyn, sydd fel arall yn gymwys, yn berthnasol i anghenion y plentyn i'r graddau y mae'r awdurdod lleol yn fodlon bod yr anghenion hynny yn cael eu diwallu gan deulu neu ofalwr y plentyn.¹⁰⁶ Gellir niwtraleiddio effaith negyddol bosibl y ddarpariaeth hon os ydych chi, fel gofalwr, yn nodi'n eglur:

- Nad ydych yn fodlon darparu gofal oni bai (a hyd nes) bod eich plentyn yn cael ei asesu'n gymwys; ac

98 S23(2)(a)
99 S51
100 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015
101 Rhan 3 Cod

102 S54(1) a (2)
103 Rhan 4 Cod, para 66
104 S54(7)
105 S37
106 S37(5)

- Y bydd yn ofynnol i natur a graddau'r gofal (os o gwbl) y gallech fod yn fodlon ei ddarparu fod yn destun trafodaethau penodol a chytundeb penodol.

Nid yw'r ddyletswydd ar awdurdod i ddiwallu anghenion yn berthnasol i blant sy'n 'derbyn gofal',¹⁰⁷ sy'n golygu eu bod yn derbyn llety neu eu bod yn destun gorchymyn gofal. Caiff y plant hyn eu cynnwys gan gyfres o ddarpariaethau o dan Ran 6 o'r Ddeddf (sydd gan fwyaf yn ailadrodd adrannau yn Rhan III o Ddeddf Plant 1989, a drafodir isod).

Mae'r canllawiau yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddarparu cymorth amserol i deuluoedd (ac wrth wneud hynny, yn lleihau'r risg y bydd teuluoedd yn annisgwyl yn 'cyrraedd pen eu tennyn'), gan bwysleisio er enghraifft ei bod yn bwysig nodi'n gynnar pa anghenion sydd gan deulu a darparu cymorth priodol a/neu wneud atgyfeiriadau priodol.

Mae'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion y plentyn a/neu ei ofalwyr yn llym yn yr ystyr nad yw'n ddibynnol ar adnoddau. Yn unol â hynny, os yw'r asesiad yn nodi bod angen (er enghraifft) 10 awr o wasanaeth gwarchod yr wythnos, neu un penwythnos y mis, i'r plentyn gael llety i ffwrdd o'i gartref, yna mae'n rhaid diwallu'r angen yn union ac nid yw'n rhywbeth y gall yr awdurdod lleol ei 'gwtagi' gan ei fod yn gorfod gwneud toriadau oherwydd prinder adnoddau. Felly, os penderfynir bod angen gofal seibiant byr ar eich plentyn yn ei asesiad, mae'n rhaid i hynny gael ei ddarparu.

4.3 A fydd tâl yn cael ei godi arnom am y gwasanaethau a ddarperir?

Ni chaiff awdurdodau lleol godi tâl am wasanaethau y maent yn eu darparu neu'n trefnu i'w darparu i blant.¹⁰⁸

¹⁰⁷ S37(6)

¹⁰⁸ Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Tâl) (Cymru) 2015, Rheoliad 3(a)

I ofalwyr, caiff awdurdodau lleol godi tâl am wasanaethau y maent yn eu darparu. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn egluro y dylai'r awdurdodau ystyried yn ofalus yr effaith o godi tâl ar ofalwyr, yn enwedig o ran eu parodrwydd a'u gallu i barhau i ofalu.¹⁰⁹ Beth bynnag, nid oes hawl ganddynt i godi mwy na sy'n rhesymol ymarferol i'r unigolyn ei dalu.¹¹⁰ Mae'r uchafswm tâl yn parhau (o ddeddfwriaeth flaenorol) i fod yn £60.00 yr wythnos.¹¹¹

Ni chaniateir i awdurdodau lleol godi tâl am y broses asesu ei hun, hyd yn oed os yw'r unigolyn yn ariannu ei ofal ei hun.¹¹²

4.4 Beth ddylwn i ei wneud os oes angen seibiant ar fy rheulu o ofalu?

Dylech ofyn am asesiad o anghenion eich plentyn, yn ogystal ag asesiad gofalwr (gweler **adran 3 ar dudalen 10**).

Nid oes deddfwriaeth wedi'i labelu yn 'seibiant byr' yn benodol na deddfwriaeth wedi'i thargedu at hawliau teuluoedd â phlant anabl i gael 'seibiant byr'. Fodd bynnag, mae'n glir bod darpariaethau craidd y Ddeddf wedi'u llunio i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth i deuluoedd â phlant anabl ac (er na chânt eu henwi'n benodol) mae 'seibiant byr' yn un o'r gwasanaethau cymorth hanfodol hyn.

Gall yr angen am gymorth seibiant byr godi o asesiad plentyn anabl neu asesiad ei ofalwyr: gall awdurdod lleol ddiwallu anghenion unigolyn trwy drefnu i rywbeth gael ei ddarparu i unigolyn heblaw yr unigolyn sydd â'r (angen wedi'i asesu).¹¹³ Mae'r Ddeddf yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ddarparu mewn achosion o'r fath ac mae'r rhain yn cynnwys y tri dull mwyaf

¹⁰⁹ Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (codi tâl ac asesu ariannol)

¹¹⁰ S66(1)

¹¹¹ Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Tâl) (Cymru) 2015, Rheoliadau 7 a 22

¹¹² S59(2)

¹¹³ S34(1)

cyffredin o hwyluso seibiant byr, sef:

- llety mewn cartref gofal, cartref plant neu safle o ryw fath arall;
- gofal a chymorth gartref neu yn y gymuned e.e. gwasanaeth gwarchod (gan gynnwys gwasanaeth gwarchod yn ystod y nos), canolfan ddydd, clwb ar ôl ysgol neu glwb gwyliau yn ystod yr haf;
- taliadau uniongyrchol.¹¹⁴

Caiff yr angen i deuluoedd gael seibiant o ofalu ei gydnabod yn eang bellach. Fel y trafodir uchod, gellid trefnu seibiant byr trwy ddarparu gwasanaethau ychwanegol yng nghartref y teulu, fel gwasanaethau gwarchod i'ch plentyn pan fyddwch chi ac aelodau eraill o'r teulu yn mynd allan. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall fod yn angenrheidiol i'ch plentyn dreulio amser byr i ffwrdd o gartref y teulu. Dyma pryd y dylid ystyried llety preswyl byr dymor.

Seibiant byr a 'phlant sy'n derbyn gofal'

(i gael esboniad o blentyn sy'n derbyn gofal' gweler **adran 4.7 ar dudalen 25**)

Gellir darparu seibiant byr i 'blant sy'n derbyn gofal' trwy drefnu i'r plentyn dreulio amser mewn lleoliad dros nos: er enghraifft, cartref maeth neu ganolfan gofal seibiant. Caiff y trefniadau hyn eu cynnwys mewn rheoliadau a chanllawiau ar wahân¹¹⁵ ar rwymedigaethau cyfreithiol sy'n berthnasol i blant o'r fath. Er bod y canllawiau'n pwysleisio¹¹⁶ y caiff 'seibiant byr' yn aml ei ddarparu yn rhan o gynllun gofal a chymorth plentyn anabl',¹¹⁷ mae'n nodi y bydd weithiau'n briodol lleoli plentyn gyda gofalwr maeth neu mewn lleoliad preswyl am gyfnod byr o amser yn unig – er enghraifft, os yw'r plentyn yn anabl a bod angen lleoli'r plentyn i ffwrdd o'i gartref dros dro pan fydd y rhieni'n cael seibiant o ofalu'.¹¹⁸

114 S34(2)

115 Rhan 6–Cod, paragraffau 288–301

116 Rhan 6–Cod, para 289

117 h.y. o dan Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf

118 Rhan 6–Cod, para 288

Yn anffodus, nid yw'r canllawiau yn y maes hwn yn ddefnyddiol iawn o ran y sefyllfa gyfreithiol mewn achosion o'r fath: ceir darparu'r seibiant dan y ddyletswydd gyffredinol i ddiwallu anghenion plant (adran 37) neu dan y darpariaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (adran 76). Os defnyddir yr olaf o'r rhain, ceir rheoliadau penodol y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio â nhw. Mae'r manylion am hyn y tu allan i gwmpas y canllaw hwn. Ond os yw'r sefyllfa hon yn codi dylech gyfeirio at adran 76 o'r Ddeddf a'r canllawiau dan Ran 6 o'r Cod am ragor o wybodaeth. Os oes angen, gallech gael cyngor cyfreithiol penodol.

4.5 Beth os yw anghenion gofal fy mhentyn yn golygu na alla i ddarparu gofal gartref?

Os ydych chi a'ch teulu yn ei chael yn anodd ymdopi â gofalu am eich plentyn anabl dylech ofyn am asesiad o anghenion eich plentyn, yn ogystal ag asesiad gofalwr (gweler **adran 3 ar dudalen 10**). Mae'n bosibl, trwy ddiwygio cynllun gofal eich plentyn fel eich bod yn cael rhagor o gymorth, gan gynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i, seibiant byrdymor, y byddwch chi a'ch teulu yn canfod eich bod yn gallu darparu'r cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen ar eich plentyn.

Mae'r canllawiau'n nodi'n glir ei bod yn ofynnol i fan cychwyn unrhyw asesiad adlewyrchu'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau i ystyried pwysigrwydd hyrwyddo magu plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny'n cyd-fynd â hyrwyddo llesiant y plentyn.¹¹⁹ Dylai'r awdurdod lleol felly geisio gwneud popeth o fewn ei allu i alluogi eich plentyn anabl i aros gyda'r teulu, ac er mwyn gwneud hynny mae'n debygol o wahodd asiantaethau eraill, fel cyrff GIG, i gynorthwyo gyda'r gwaith o asesu anghenion eich plentyn.¹²⁰

119 Rhan 3 Cod, para 68

120 Rhan 3 Cod, para 70

Dylech chi,¹²¹ yn ogystal â'ch plentyn¹²² ac aelodau eraill o'ch teulu, gael eich cynnwys wrth benderfynu pa gymorth a chefnogaeth y gellir eu darparu er mwyn i'ch plentyn allu parhau i fyw gartref. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod anabledd a/neu anghenion iechyd eich plentyn ar lefel mor uchel a/neu ddifrifol fel nad yw bellach yn ymarferol i'ch plentyn dderbyn gofal yng nghartref y teulu.

Os yw'r awdurdod lleol yn dod i'r casgliad nad ydych chi a'ch teulu yn gallu darparu gofal neu lety i'ch plentyn, mae'n rhaid iddo ddarparu llety i'ch plentyn.¹²³ Nid oes ots a yw'r sefyllfa'n debygol o fod dros dro neu'n barhaol, ac nid oes ots pam fod y sefyllfa hon wedi codi. Os yw'n blentyn o oedran ysgol, gallai lleoliad preswyl fod yn briodol.¹²⁴

4.6 A fyddwch yn ymgynghori â fy mhentyn a minnau ynghylch lleoliad i ffwrdd o'r cartref?

Ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu lleoli eich plentyn i ffwrdd o gartref os ydych chi neu unrhyw un arall â **chyfrifoldeb rhiant** yn gwrthwynebu hynny. (Pe byddai'n dymuno gwneud hyn heb i chi gytuno i hynny byddai angen i'r awdurdod gychwyn achosion gofal). Hefyd, cyn darparu'r lleoliad, bydd angen i'r awdurdod lleol gymryd camau i nodi beth yw dymuniadau a theimladau eich plentyn ac ystyried y rhain.

121 Rhan 3 Cod, para 75

122 Rhan 3 Cod, para 74

123 Ss74 ymlaen

124 Rhan 6 Cod Ymarfer (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n derbyn llety), para 1 I 2 ac ymlaen

4.7 Rwyf wedi cael gwybod bod fy mhentyn yn 'blentyn sy'n derbyn gofal' – beth mae hyn yn ei olygu?

Mae'r diffiniad o **'blentyn sy'n derbyn gofal'** yn cynnwys plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol (h.y. sy'n destun gorchymyn gofal neu orchymyn gofal interim), neu sy'n derbyn llety gan awdurdod lleol am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (gyda chaniatâd y bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhieni am y plentyn).¹²⁵

4.8 Beth sy'n digwydd pan fydd fy mhentyn yn tyfu'n oedolyn?

Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 18 oed (a elwir yn gyfnod pontio) bydd hyn yn sbarduno'r angen am ailasesiad.¹²⁶

Pontio ar gyfer 'plant sy'n derbyn gofal'

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu amrywiaeth o gymorth i bobl ifanc sy'n 'blant sy'n derbyn gofal', neu sydd wedi derbyn gofal, wrth iddynt bontio i'w cyfrifoldebau fel oedolyn. O ran 'plant sy'n derbyn gofal', mae'n rhaid i'r awdurdod lleol 'baratoi cynllun llwybr i gynorthwyo'r unigolyn ifanc hwnnw i bontio i fod yn oedolyn a gadael gofal. Bydd y cynllun llwybr yn datblygu cynllun gofal a chymorth Rhan 6 presennol y plentyn, a gaiff ei gynnwys yn y cynllun llwybr.'¹²⁷

Pontio ar gyfer plant nad ydynt yn 'derbyn gofal'

Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n ymdrin â chyfrifoldebau awdurdodau lleol i blant anabl a gofalwyr pan fo unigolyn ifanc yn pontio i fod yn oedolyn (heblaw am 'Blant sy'n Derbyn Gofal'). Ar hyn o bryd, nid yw'r Ddeddf yn darparu

125 S74; a Rhan 6–Cod, para 1 I 2

126 Rhan 3–Cod, para 95

127 Rhan 6–Cod, para 53

dyletswydd i ystyried anghenion pontio plant â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996. Golyga hyn fod y dyletswyddau o dan Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 adrannau 5 a 6 yn parhau—sef y

ddyletswydd, pan fo plentyn yn 14 oed, i gysylltu â'r swyddog gwasanaethau cymdeithasol perthnasol gyda'r bwriad o gynnal asesiad gofal cymdeithasol o anghenion yr unigolyn ifanc—er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar waith pan fo'r ddarpariaeth addysg yn dod i ben.

5. Taliadau Uniongyrchol

5.1 A gawn ni drefnu'r gwasanaethau ein hunain?

Os hoffech chi wneud hynny, yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn trefnu gwasanaethau ar gyfer eich plentyn, gallwch ofyn i'r awdurdod wneud taliadau rheolaidd i chi fel y gallwch chi brynu'r gwasanaethau ar gyfer eich plentyn. Gelwir y rhain yn 'daliadau uniongyrchol'. Gallant dalu am amrywiaeth eang o wasanaethau, ac mae'r canllawiau'n nodi y gellir eu darparu ar gyfer 'unrhyw angen am ofal a chymorth a nodir'.¹²⁸

Gellir talu Taliadau Uniongyrchol i chi ar ran eich plentyn anabl hyd nes bydd eich plentyn yn 18 oed (ar ôl 18 oed, os nad yw'r unigolyn ifanc yn meddu ar y gallu meddyliol angenrheidiol a'ch bod chi'n cael eich derbyn fel yr 'unigolyn cyfrifol' priodol i dderbyn y taliad, gallwch barhau i wneud hynny).¹²⁹ Fodd bynnag, mae gan bobl ifanc yr hawl i reoli eu taliadau uniongyrchol eu hunain cyn belled â bod ganddynt allu meddyliol digonol i wneud hynny, hyd yn oed os oes angen ychydig o gymorth arnynt (a'r rhagdybiaeth yw, bod gan y rhai hynny sy'n 16 neu 17 oed y gallu meddyliol angenrheidiol).¹³⁰

Os ydych yn defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi rhywun (megis gofalwr neu gynorthwyydd personol), mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau eich bod chi'n gwbl ymwybodol o'ch cyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr a'ch bod yn cael y cymorth a'r

adnoddau priodol i reoli eich cyfrifoldebau cyflogaeth.¹³¹ Dylai swm y taliad fod yn ddigon i dalu'r costau cynhenid sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr cyfreithiol.¹³²

Caiff manylion y cynllun eu nodi mewn rheoliadau, sef Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015. Darperir canllawiau ar y cynllun yn Rhan 4—Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), er bod hyn yn llai manwl na'r canllawiau dan y drefn ddeddfwriaethol flaenorol.

Bydd gennych chi hawl i daliad uniongyrchol ar gyfer eich plentyn, ar gais, os yw'r awdurdod lleol yn fodlon:

- Bod y taliadau'n cael eu gwneud i'r plentyn neu i unigolyn a chanddo gyfrifoldeb riant am blentyn a chanddo anghenion gofal a chymorth;
- Bod gan y plentyn neu riant y plentyn y gallu (neu, os yw'n iau nag 16 oed, ddealltwriaeth ddigonol) i gydsynio â gwneud y taliadau;
- Bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion y plentyn, bod lles y plentyn yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy wneud y taliadau, a bod yr unigolyn sy'n derbyn y taliadau yn gallu rheoli'r taliadau, gan gynnwys cymorth os oes angen;
- Bod yr unigolyn sy'n derbyn y taliad wedi cydsynio iddo.¹³³

128 Rhan 4—Cod, para 133

129 S3(3)/S51(1)

130 S51(4)

131 Rhan 4 Cod, para 138

132 Rhan 4 Cod, para 140

133 S51(3)–(6)

5.2 Pa newidiadau sydd i'r taliadau uniongyrchol sydd ar gael ac a oes unrhyw gyfyngiadau ar eu defnydd?

Mae Taliadau Uniongyrchol bellach ar gael o dan y Ddeddf mewn tair sefyllfa newydd. Yn gyntaf, gellir defnyddio taliadau uniongyrchol yn awr i dalu am ofal a chymorth gan yr awdurdod lleol ei hun,¹³⁴ nad oedd yn bosibl o dan ddeddfwriaeth flaenorol. Yn ail, gellir hefyd eu defnyddio bellach i dalu perthynas sy'n byw yn yr un cartref â chi.¹³⁵ Yn drydydd, gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i ariannu gofal preswyl hirdymor.¹³⁶ Fodd bynnag, un broblem ar hyn o bryd yw'r ffaith nad oes llawer o esboniad o ran sut y bydd y cynllun taliadau uniongyrchol yn talu costau gofal preswyl yn ymarferol.

O ran cyfyngiadau i'r cynllun, ni cheir defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer pobl sy'n gymwys am gyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG (gweler mwy isod).¹³⁷

134 S53(9)

135 Rhan 4 Cod, para 165

136 Rhan 4 Cod, para 133

137 S47(1)

6. Cynlluniau gofal a chymorth

Pan fydd awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan blentyn anabl (neu ei ofalwyr) anghenion cymwys, bydd angen i'r awdurdod baratoi 'cynllun gofal a chymorth'¹³⁸ sy'n esbonio'r 'manyllion gweithredol': gwybodaeth am 'sut, pwy, beth a phryd'. Bydd yn rhaid i'r cynllun ddisgrifio sut y diwellir yr angen, gan bwyl, ym mha ffordd a pha bryd y caiff hyn ei wneud. Bydd yn rhaid i asesiad arwain at gynllun gofal sy'n nodi anghenion y plentyn, yr hyn sydd angen ei wneud ynglŷn â'r anghenion hyn, gan bwyl a pha bryd. Os gwneir taliad uniongyrchol, mae'n rhaid iddo bennu'n union yr anghenion y

138 S54

Ar wahân i'r cyfyngiad hwn, y sefyllfa gyffredinol yw bod gennych yr hawl i fynnu taliad uniongyrchol er mwyn talu am y gwasanaethau y nodwyd eu bod yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion eich plentyn (neu eich anghenion chi eich hun). Os yw eich plentyn eisoes yn cael gwasanaethau yn uniongyrchol gan eich awdurdod lleol, yna gallwch ofyn am gael taliadau uniongyrchol yn lle hynny, Gallwch hefyd ofyn am becyn "cymysg", lle caiff rhai gwasanaethau eu darparu'n uniongyrchol, a chewch daliadau uniongyrchol i brynu gwasanaethau eraill.

5.3 Beth os yw fy mhleentyn yn gymwys am Ofal Iechyd Parhaus y GIG?

Ar hyn o bryd, os yw eich Bwrdd Iechyd Lleol yn ceisio dadlau nad ydych chi neu eich plentyn yn gymwys am Ofal Iechyd Parhaus y GIG, neu y dylai'r awdurdod lleol dalu'r costau hyn, dylech geisio cyngor cyfreithiol penodol.

Mae'r Adran Adnoddau (gweler [tudalen 39](#)) yn darparu ffynonellau sy'n cynnig rhagor o wybodaeth am y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014.

mae'r taliadau hyn yn bwriadu eu diwallu, pam yr ystyrir bod y lefel hon o daliad yn addas, neu beth fydd y canlyniad. Bydd yn rhaid cynnig copi o'r cofnod asesu i'r plentyn anabl a'i rieni.¹³⁹

6.1 Beth ddylai fod yn rhan o gynllun gofal a chymorth fy mhleentyn?

Bydd yn rhaid i'ch awdurdod lleol gynhyrchu "cynllun gofal a chymorth" ar gyfer eich plentyn os yw anghenion eich plentyn wedi'u hasesu'n

139 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 Rheoliad 6; a Rhan 3—Cod, para 116

gymwys.¹⁴⁰ Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid iddo hefyd gynhyrchu "cynllun cymorth" ar eich cyfer chi os ydych chi wedi'ch hasesu'n gymwys fel gofalwr.¹⁴¹ Bydd y cynllun(iau) yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad o anghenion eich plentyn a sut y cewch chi a'ch teulu eich helpu er mwyn ymateb i'r anghenion hynny drwy ddarparu cymorth a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dylech gael copi o'r cynllun.

Mae'n rhaid i chi, eich plentyn ac, os yw'n ymarferol, ofalwr y plentyn (os nad chi yw'r gofalwr), fod yn rhan o waith parato'i'r cynllun. Yn achos llunio cynllun ar gyfer gofalwr, mae'n rhaid i'r awdurdod gynnwys y gofalwr ei hun a, lle bo'n bosibl, yr unigolyn y mae'r gofalwr yn gofalu amdano.¹⁴² Noda'r canllawiau'n glir fod yn rhaid i'r cynllun gael ei ddatblygu mewn partneriaeth â chi a'ch plentyn i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o sut y bydd yr anghenion yn cael eu diwallu a chanlyniadau personol yn cael eu cyflawni.¹⁴³

Mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- Y canlyniadau personol sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r unigolyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddo (gweler Adran 3.9 ar dudalen 13 am ragor o fanylion);
- Y camau i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a phobl eraill i helpu'r unigolyn i gyflawni'r canlyniadau hynny;
- Yr anghenion a ddiwellir trwy ddarparu gofal a chymorth;
- Sut y bydd cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny yn cael ei fonitro a'i fesur;
- Dyddiad yr adolygiad nesaf o'r cynllun gofal.¹⁴⁴

Lle bo'n briodol, dylai'r cynllun hefyd nodi:

- Swyddogaethau a chyfrifoldebau'r unigolyn, gofalwyr ac aelodau o'r teulu ac ymarferwyr;

- Yr adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) sy'n ofynnol gan bob parti.¹⁴⁵

Lle diwellir yr holl anghenion neu rai ohonynt gan daliadau uniongyrchol, mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys disgrifiad o:

- Yr anghenion sydd i fod i gael eu diwallu gan daliadau uniongyrchol; a
- Chyfanswm a mynychder y taliadau uniongyrchol.¹⁴⁶

Mae'n rhaid i gynlluniau gynnwys dyddiad clir, y dylech chi a'ch plentyn gytuno arno, ar gyfer adolygu'r cynllun. Gweler Adran 6.2 isod i gael rhagor o wybodaeth ynghlŷn â dyddiadau adolygu.

Mae'r canllawiau'n gofyn i ymarferwyr sicrhau bod cadarnhad clir a chryno o'r camau cytunedig a phwy fydd yn cymryd y camau hynny.¹⁴⁷ Felly, os ydych chi'n ystyried bod y cynllun gofal a gynhyrchir gan eich awdurdod lleol yn annelwig, yn aneglur neu fel arall yn anefnyddiol, dylech godi'r mater ar unwaith â'ch awdurdod lleol, gan gynnwys cyflwyno cwyn os oes angen. Yn y pen draw, gellid herio yn y llys y methiant o ran darparu cynllun gofal clir a chynhwysfawr; yn wir, bu nifer o achosion cyfreithiol dan ddeddfwriaeth flaenorol lle y gwrthdrowyd cynlluniau gofal am eu bod wedi methu â nodi'n ddigon clir yr anghenion, yr hyn sydd angen ei wneud ynghlŷn â nhw, erbyn pryd a chan bwy.

6.2 Pa mor aml y caiff y cynllun gofal a chymorth ei adolygu?

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion yr unigolyn.¹⁴⁸ Os nad yw'r cynllun yn diwallu anghenion cymwys yr unigolyn, er enghraifft, os yw'r awdurdod o'r farn bod amgylchiadau unigolyn wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio

140 S54(1)

141 S54(2)

142 S54(7)

143 Rhan 4 Cod, para 66

144 Rhan 4 Cod, para 84

145 Rhan 4 Cod, para 85

146 Rhan 4 Cod, para 86

147 Rhan 4 Cod, para 83

148 Rhan 4 Cod, para 113

ar y cynllun, yna mae'n rhaid i'r awdurdod adolygu'r cynllun.¹⁴⁹

Gallwch chi neu eich plentyn ofyn am adolygiad o'r cynllun gofal¹⁵⁰ ac mae'n rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cais hwn os nad yw'r cynllun yn diwallu anghenion eich plentyn.¹⁵¹ Fodd bynnag, os yw'r awdurdod yn credu bod y cynllun yn foddhaol, yna gall wrthod adolygu'r cynllun.¹⁵²

Mae'n rhaid i chi neu eich plentyn fod yn rhan o'r adolygiad.¹⁵³ Dylai'r awdurdod lleol hefyd gynnwys:

- unrhyw berson yr ydych chi'n gofyn iddo gymryd rhan;
- unrhyw ymarferwr/gweithiwr proffesiynol y bydd angen iddo gynnal asesiad cysylltiedig;
- unrhyw ymarferwr/gweithiwr proffesiynol ag arbenigedd i ymdrin â'ch amgylchiadau chi neu amgylchiadau eich plentyn;
- unrhyw berson arall sy'n cymryd rhan ddigonol yng ngofal eich plentyn;
- eiriolwr.¹⁵⁴

Mae'n rhaid i'r holl gynlluniau gofal a chymorth gael dyddiad adolygu, y dylid cytuno arno neu ei nodi ar y cychwyn cyntaf, ac ym mhob adolygiad dilynol. Mae'n rhaid cynnal yr adolygiad o fewn y cyfnod y cytunwyd arno. Ar gyfer plentyn, ni chaiff y dyddiad adolygu fod yn fwy na 6 mis, ac ar gyfer oedolyn, ni chaiff y dyddiad adolygu fod yn fwy na 12 mis.¹⁵⁵ Fodd bynnag, os ymddengys na chaiff anghenion eu diwallu, yna mae'n rhaid i'r awdurdod gynnal

149 S54(4); a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliad 4(1); a Rhan 4–Cod, para 58

150 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliad 5(2)

151 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliad 5(2)

152 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliad 5(3)

153 Rhan 4 Cod, para 117

154 Rhan 4 Cod, para 118

155 Rhan 4 Cod, para 121

adolygiad, boed hynny erbyn y dyddiad adolygu neu beidio.¹⁵⁶

Diben adolygiad yw:

- Monitro cynnydd a newidiadau;
- Ystyried i ba raddau mae cyflwyno'r cynllun yn diwallu'r anghenion a aseswyd a sut mae wedi helpu'r unigolyn neu'r teulu i gyflawni eu canlyniadau;
- Penderfynu pa gymorth sydd ei angen yn y dyfodol, a chadarnhau, diwygio neu derfynu'r gwasanaethau dan sylw.

Mae'n rhaid adlewyrchu'r uchod wrth gofnodi'r adolygiad.¹⁵⁷

Pan fo cynllun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer taliadau uniongyrchol, yna mae'n rhaid i unrhyw adolygiad o'r taliadau uniongyrchol gynnwys adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth hefyd. Yn yr un modd, pan fo adolygiad yn arwain at newid yn y cynllun gofal a chymorth, yna bydd yn rhaid cynnal adolygiad o'r taliadau uniongyrchol hefyd.¹⁵⁸

Yn dilyn unrhyw adolygiad, mae'n rhaid i'r awdurdod benderfynu a ddylid cadarnhau, diwygio neu derfynu cynllun gofal. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried a oes unrhyw newidiadau i'r canlynol:

Canlyniadau personol neu amgylchiadau personol;

- Anghenion cymwys;
- A yw gweithredoedd presennol yr awdurdod i gefnogi'r unigolyn yn gweithio;
- A oes ffyrdd eraill y gall yr awdurdod neu eraill helpu'r unigolyn gyflawni canlyniadau personol neu, fel arall, ddiwallu eu hanghenion cymwys.¹⁵⁹

156 Rhan 4 Cod, para 122

157 Rhan 4 Cod, para 114

158 Rhan 4 Cod, para 12

159 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliadau 6(1) a (2)

- Pa bynnag gamau gweithredu y mae'r awdurdod yn eu cymryd, mae'n rhaid iddynt ddweud wrthyh chi. Os ydynt yn cadarnhau eich cynllun presennol, mae'n rhaid iddynt gofnodi eu penderfyniad a'r rhesymau drosto.¹⁶⁰ Os ydynt yn adolygu'r cynllun, mae'n rhaid iddynt baratoi cynllun diwygiedig.¹⁶¹ Os ydynt yn penderfynu cau eich cynllun, mae'n rhaid iddynt baratoi 'datganiad cau'¹⁶² y mae'n rhaid ei gofnodi.¹⁶³ Mae'n rhaid i 'ddatganiad cau' gynnwys rhesymau, gwerthusiad o'r graddau y cyflawnwyd y canlyniadau personol, a chadarnhad, lle mae gan unigolyn anghenion o hyd, y gellir diwallu'r anghenion hyn gan wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned.¹⁶⁴ Ni cheir cau cynllun heb adolygiad.¹⁶⁵

Mae'n rhaid i'r awdurdod ddarparu ac adolygu cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ag hanghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra yn yr un modd ag unigolion a chanddynt anghenion gofal a chymorth. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu trin yr un fath.¹⁶⁶ Mae hyn yn wir hyd yn oed os nad oes dyletswydd i ddiwallu anghenion y person sy'n derbyn gofal ac nad oes cynllun gofal a chymorth ar wahân ar gyfer y person hwnnw.¹⁶⁷

Os oes gennych fân bryderon ynglŷn â'r pecyn gofal y mae eich plentyn yn ei gael, yna mae'r cyfarfod adolygu arferol yn gyfle defnyddiol i godi'r pryderon hynny; fodd bynnag, o ran pryderon mwy difrifol, ni ddylech deimlo bod angen ichi aros tan gyfarfod a drefnir a dylech eu codi â'ch awdurdod lleol yn uniongyrchol (drwy ddilyn ei weithdrefn gwyno os oes angen).

160 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliad 6(3)

161 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliad 6(4)

162 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliad 6(5); a Rhan 4–Cod, paragraffau 125 a 127

163 Rhan 4 Cod, para 127

164 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015, Rheoliad 6(6)

165 Rhan 4 Cod, para 58/124

166 Rhan 4 Cod, para 62

167 Rhan 4 Cod, para 62

7. Deddf Cydraddoldeb 2010 a gwasanaethau gofal cymdeithasol

Mae [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddarpariaethau i amddiffyn grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys pobl anabl, rhag gwahaniaethu. Mae'r ddeddf hefyd yn gofyn i gyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol weithredu i gael gwared ar wahaniaethu o fewn eu sefydliadau (rhwymedigaeth a elwir yn 'ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus'). Mae'r adran hon yn crynhoi sut y bydd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i chi a'ch plentyn anabl pan fyddwch chi yn cael (neu'n ceisio cael) gwasanaethau gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol.

7.1 Pa gamau amddiffyn y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cynnig i'm plentyn?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ac [aflonyddu](#) yn seiliedig ar 'nodweddion gwarchoddedig'. Mae [erledigaeth](#) hefyd yn anghyfreithlon. Mae'r nodweddion gwarchoddedig canlynol yn berthnasol (gyda graddau amrywiol o amddiffyn) mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol neu pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus (megis gwneud penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau):

- Oedran (ar gyfer pobl 18 oed neu hŷn mewn cyd-destun gwasanaethau ac arfer swyddogaethau cyhoeddus)
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil

- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae eich plentyn yn anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol hirdymor sylweddol ar ei allu i gyflawni gweithgareddau bob dydd.¹⁶⁸

O fod yn blentyn anabl, bydd eich plentyn yn cael ei amddiffyn pan fydd yn ceisio defnyddio gwasanaethau, pan fydd yn defnyddio gwasanaethau, ac mewn rhai amgylchiadau, pan na fydd yn cael y gwasanaethau bellach.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi amrywiaeth o ganllawiau yn ymwneud â'r Ddeddf Cydraddoldeb gan gynnwys 'Gwasanaethau, cysylltiadau a swyddogaethau cyhoeddus: Cod Ymarfer Statudol' ('y Cod Gwasanaethau')—gweler yr [adran Adnoddau ar dudalen 39](#).

7.2 Pa gamau amddiffyn y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cynnig i'm plentyn pan fydd yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol?

Yn ôl y Ddeddf, mae'n anghyfreithlon i ddarparwyr gwasanaethau wahaniaethu yn erbyn eich plentyn:

- mewn cysylltiad â gwasanaeth arbennig;
 - ◆ drwy wrthod rhoi'r gwasanaeth i'ch plentyn a/neu
 - ◆ drwy beidio â rhoi'r un lefel o wasanaeth i'ch plentyn neu drwy beidio â'i roi yn yr un modd neu ar yr un telerau ag y byddent yn ei roi fel arfer i aelodau o'r cyhoedd neu'r garfan o'r cyhoedd y maen nhw'n perthyn iddi, megis cleifion allanol mewn ysbytai.
- drwy derfynu darpariaeth y gwasanaeth;
- drwy achosi unrhyw niwed arall i'ch plentyn.
 - ◆ Ni ddiffinnir 'niwed' yn y Ddeddf ac mae ganddo ystyr eang. Eglura'r Cod Gwasanaethau (paragraff 9.7), er nad oes angen iddo gael canlyniadau corfforol neu economaidd, dylai fod yn rhywbeth y gallai defnyddiwr gwasanaeth yn rhesymol fod o'r farn ei fod wedi newid ei sefyllfa er gwaeth neu ei roi dan anfantais.

Hefyd, ni ddylai darparwr gwasanaethau wahaniaethu, aflonyddu nac erlid wrth arfer swyddogaeth gyhoeddus. Ceir sawl ffordd o ddehongli hyn. Eglura'r Cod Gwasanaethau (paragraff 11.26) fod gwrthod caniatáu i rywun elwa ar arfer swyddogaeth, neu drin rhywun yn waeth wrth arfer swyddogaeth yn enghreifftiau o'r mathau o wahaniaethu a gwmpesid yn y ddarpariaeth hon.

7.3 Beth yw'r gwahanol fathau o wahaniaethu?

- **Gwahaniaethu uniongyrchol** – trin unigolyn yn llai ffafriol nag un arall oherwydd nodwedd warchoddedig.

Enghraifft: gwasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys yn gwrthod trin plentyn sydd wedi disgyn allan o goedden oherwydd bod gan y plentyn Syndrom Down ac nid yw'r gwasanaeth o'r farn fod ganddo'r arbenigedd sydd ei angen i drin y plentyn o ganlyniad i hynny.

Fel arfer ni ellir cyfiawnhau gwahaniant uniongyrchol; fodd bynnag, o ran oedran, gellir cyfiawnhau gwahaniant uniongyrchol os yw'n ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Mae bob amser yn gyfreithlon trin unigolyn anabl yn fwy ffafriol nag unigolyn nad yw'n anabl o ganlyniad i'w anabled.

Mae gwahaniant uniongyrchol trwy gysylltiad a gwahaniant uniongyrchol trwy ganfyddiad hefyd yn anghyfreithlon. Mae gwahaniant uniongyrchol trwy gysylltiad yn golygu gwahaniant yn erbyn rhywun ar sail ei gysylltiad â rhywun arall a chanddo nodwedd warchoddedig (e.e. gwrthod cyflogi rhywun yn seiliedig ar y ffaith bod ganddo gyfrifoldebau gofalu am blentyn anabl ac felly na fydd yn gallu canolbwyntio ar ei swydd). Mae gwahaniant uniongyrchol drwy ganfyddiad yn golygu gwahaniant yn erbyn rhywun yn seiliedig ar ganfyddiad neu gred bod ganddo nodwedd warchoddedig, boed hynny'n wir ai peidio (e.e. gwrthod rhoi swydd i rywun gan gredu bod yr unigolyn dan sylw dros 40 oed ac felly'n rhy hen, ond bod yr unigolyn hwnnw mewn gwirionedd yn llawer iau).

- **Gwahaniaethu anuniongyrchol** – gweithredu darpariaeth, arfer neu feini prawf yn yr un ffordd i bawb. Gall hyn roi pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig dan anfantais benodol o'i gymharu â phobl nad oes ganddynt y nodwedd warchoddedig honno, oni bai y gellir dangos ei fod yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithiol.

Enghraifft: (addaswyd o'r Cod Gwasanaethau): Mae Meddygfa Meddyg Teulu yn sefydlu gwefan er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gael gafael ar ei gwasanaethau. Fodd bynnag, mae holl destun y wefan wedi'i ymgorffori mewn graffeg. Er nad oedd yn bwriadu gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth a chanddynt nam ar y golwg, mae'r arfer hwn yn golygu bod y rhai hynny a chanddynt nam ar y golwg dan anfantais benodol gan na allant newid maint y ffont neu ddefnyddio meddalwedd adnabod testun-i-lais ac o ganlyniad yn methu â chael mynediad i'r wefan. Yn ogystal ag arwain at rwymedigaeth i wneud addasiad rhesymol i'w gwefan, bydd yr arfer hwn yn cyfateb i wahaniaethu anuniongyrchol ar sail anabledd oni bai bod y feddygfa yn gallu ei gyfiawnhau.

- Methu â gwneud addasiadau rhesymol (ar gyfer pobl anabl yn unig) – gweler isod.
- Gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth – trin merch/menyw yn anffafriol oherwydd ei bod hi'n feichiog neu wedi bod yn feichiog, wedi rhoi genedigaeth o fewn y 26 wythnos diwethaf neu'n bwydo baban sy'n 26 wythnos oed neu iau ar y fron.
- Gwahaniaethu yn deillio o anabledd (ar gyfer pobl anabl yn unig) – trin unigolyn anabl yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n codi o ganlyniad i'w anabledd, oni bai y gellir

dangos bod y driniaeth yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithiol. Os yw'r darparwr gwasanaethau wedi methu â gwneud addasiad rhesymol priodol, bydd yn anodd iawn iddo brofi bod cyfiawnhad i'r driniaeth. Os nad oedd y darparwr gwasanaethau yn gwybod ac os nad oedd yn rhesymol disgwyl iddo wybod bod yr unigolyn yn anabl, ni fydd y driniaeth anffafriol yn cyfrif fel gwahaniaethu yn deillio o anabledd.

Enghraifft: caiff plentyn a chanddo ADHD ei wrthod am ofal seibiant gan fod ei adran gwasanaethau cymdeithasol yn ystyried y bydd ei ymddygiad (sy'n ganlyniad anwirfoddol o'i anabledd) yn tarfu gormod ar blant eraill. Byddai'n rhaid i'r adran gwasanaethau cymdeithasol gyfiawnhau'r driniaeth hon. Os yw'n methu â gwneud addasiad rhesymol a allai fod wedi atal neu leihau'r driniaeth anffafriol, byddai'n anodd iddi wneud hynny.

7.4 Sut mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol?

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn ddyletswydd ddisgwylgar a pharhaol sy'n ddyledus i ddefnyddwyr gwasanaethau anabl yn gyffredinol. Golyga hyn fod angen i awdurdodau lleol feddwl am anghenion eu defnyddwyr gwasanaethau anabl yn gyffredinol a chynllunio ar eu cyfer, a pheidio ag aros nes y daw defnyddiwr gwasanaeth anabl unigol atynt.

Gofynnir i ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai hynny sy'n arfer swyddogaeth gyhoeddus gymryd camau cyfrifol i:

- osgoi anfantais sylweddol pan fo arfer, darpariaeth neu faen prawf yn rhoi defnyddwyr gwasanaethau anabl dan anfantais sylweddol;
- osgoi anfantais sylweddol pan fo nodwedd gorfforol yn rhoi defnyddwyr gwasanaethau anabl dan anfantais sylweddol; mae hyn yn cynnwys cael gwared ar y nodwedd dan sylw, ei haddasu neu ddarparu dull rhesymol o'i hosgoi, neu pan na ellir osgoi'r anfantais, ddarparu gwasanaeth neu arfer y swyddogaeth;
- darparu gwasanaeth neu gymorth ategol pan fo methu â gwneud hynny yn rhoi defnyddiwr gwasanaethau anabl dan anfantais sylweddol.

(Noder: Golyga 'sylweddol' fwy na bach neu ddiwbys mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau; rhoddir ystyr arbennig i anfantais sylweddol pan fo rhywun yn destun niwed wrth arfer swyddogaeth gyhoeddus.)

Enghraifft: mae gwasanaeth ffisiotherapi yn ymestyn amser arferol ei apwyntiadau i ddarparu ar gyfer yr amser ychwanegol sydd ei angen ar ferch a chanddi barlys yr ymennydd sy'n cyfathrebu drwy gyfrwng cymorth cyfathrebu a gynorthwyir gan ei chynorthwydd personol. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'w wneud.

Os yw'r ddarpariaeth, yr arfer neu'r maen prawf neu'r gwasanaeth neu gymorth ategol yn cynnwys darparu gwybodaeth, mae'r camau sy'n rhesymol i'w cymryd yn cynnwys sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch.

7.5 A gaiff awdurdodau lleol godi tâl arnom ni am y gost o wneud addasiad rhesymol?

Na chaiff – ni chodir tâl ar eich plentyn am y gost o wneud addasiad rhesymol.

7.6 Beth yw dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a sut mae'n berthnasol i awdurdodau lleol?

Mae gan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (sydd â'r nod o gael gwared ar wahaniaethu o fewn corff cyhoeddus) ddwy ran: dyletswydd gyffredinol a chyfres o ddyletswyddau penodol.

Nid yw pob corff cyhoeddus yn ddarostyngedig i ddwy ran y ddyletswydd. Caiff sefydliadau nad ydynt yn gyrrff cyhoeddus ond sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn rhan o'u gwaith, eu cynnwys yn rhan gyffredinol y ddyletswydd mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaeth honno. Mae awdurdodau lleol yn gyrrff cyhoeddus ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb penodol a chyffredinol y sector cyhoeddus. Efallai y bydd rhai aelodau unigol o staff yn arfer swyddogaeth gyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswyddau ac wrth wneud hynny, byddant yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus. Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwasanaethau.

Y ddyletswydd gyffredinol

Caiff y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus eu cynnwys yn y ddyletswydd gyffredinol.¹⁶⁹ Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod

¹⁶⁹ Deddf Cydraddoldeb 2010 Atodlen 19, Rhan 2, fel yr ychwanegwyd ac y diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011

awdurdodau cyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau bob dydd.¹⁷⁰

Mae gan y ddyletswydd gyffredinol dri nod. Mae'n gofyn i awdurdodau cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau ac wrth i bobl arfer swyddogaeth gyhoeddus mewn cysylltiad â'r swyddogaeth honno, roi sylw dyledus i'r angen i:

- gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai hynny nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai hynny nad ydynt

Y dyletswyddau penodol

Diben y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff rhestredig i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a chynorthwyo tryloywder.¹⁷¹

Mae'r dyletswyddau penodol yn gymwys i gyrff rhestredig yng Nghymru, ac mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd gyhoeddus¹⁷² hefyd yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn rhestru'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.

170 http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/essential_guide_to_the_public_sector_equality_duty_wales.pdf, para 2.2

171 http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/essential_guide_to_the_public_sector_equality_duty_wales.pdf para 3

172 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (Rheoliadau) 2011, Rheoliad 3(1)

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn gofyn i awdurdodau lleol gyhoeddi amcanion, er mwyn eu galluogi i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well, a chyhoeddi datganiad yn dangos y camau a gymerwyd neu y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni pob amcan, ynghyd â darpariaeth ar gyfer monitro cynnydd.¹⁷³ Roedd yn rhaid i awdurdod gyhoeddi ei amcanion cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill 2012 fan bellaf. Ar ôl hynny, mae'n rhaid iddo adolygu ei amcanion cydraddoldeb o fewn pedair blynedd i'r adeg y'u cyhoeddwyd gyntaf ac o leiaf unwaith bob pedair blynedd wedi hynny.

7.7 A wyf i wedi fy amddiffyn rhag gwahaniaethu oherwydd fy mherthynas â'm plentyn anabl?

Cewch eich amddiffyn rhag gwahaniaethu uniongyrchol (ac [aflonyddu](#)) os ydych yn cael eich trin yn llai ffafriol nag eraill o ganlyniad i'ch cysylltiad â'ch plentyn anabl, er enghraifft gan ddarparwr gwasanaethau neu ddarparwr addysg eich plentyn neu gan eich cyflogwr. Gelwir hyn yn wahaniaethu ar sail cysylltiad, fel y cyfeirir ato uchod.

173 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (Rheoliadau) 2011, Rheoliad 3(2)

8. Cwynion: crynodeb o'r atebion posibl

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg cyffredinol o sut y gallwch gwyno am y gwasanaethau a gafwyd gan wasanaethau gofal cymdeithasol i blant a ddarperir gan awdurdodau lleol, neu'r penderfyniadau a wnaed ganddynt. Mae'r **adran Adnoddau ar dudalen 39** yn rhoi manylion am sut i gael rhagor o wybodaeth a chymorth.

8.1 A gaf i wneud cwyn os nad wyf yn hapus ag agweddau ar ofal fy mhentyn?

Os ydych chi'n pryderu am unrhyw agwedd ar ofal eich plentyn, mae gennych yr hawl i gwyno. Gall pryderon o'r fath ymwneud â'r modd y darperir y gwasanaethau, lefel y gwasanaethau a gynigir i'ch plentyn neu eich teulu, neu benderfyniad i beidio â darparu gwasanaeth penodol (neu unrhyw wasanaeth) neu beidio ag ymateb i gais am asesiad o anghenion eich plentyn neu fethu ag asesu eich anghenion chi.

8.2 Beth sydd angen i mi ei ystyried wrth benderfynu a ddylwn i wneud cwyn, a sut i wneud hynny?

Rhestrir isod yr amrywiol weithdrefnau cwyno a all fod ar gael i chi. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol ichi ystyried dulliau anffurfiol o fynegi eich pryderon. Yn aml, y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys anghydfodau o'r fath fydd drwy gysylltiadau anffurfiol â chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol perthnasol. Gall gynnwys eich AS lleol, eich cynghorydd lleol neu hyd yn oed y cyfryngau lleol, gryfhau eich dadleuon. Yn gyffredinol, mae'n bwysig gwneud cwynion ar unwaith (ac os ystyrir achos llys, efallai y bydd angen mynd ati i gynnal yr achos yn gyflym iawn – a bydd angen cael cyngor arbenigol ar frys).

Bydd y camau gweithredu gorau yn debygol

o ddibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys sail eich cwyn a'r costau tebygol wrth ddilyn camau gweithredu penodol. Er enghraifft, er y gall cymryd camau cyfreithiol drwy gyfrwng adolygiad barnwrol arwain at ateb cynnar, mae'n debygol o fod yn ddrud iawn oni fydd cymorth cyfreithiol ar gael, ac efallai na fydd yn briodol os ceir anghydfodau ffeithiol arwyddocaol.

8.3 Sut alla i fynd ati i gwyno?

Efallai y bydd y mecanweithiau cwyno canlynol yn berthnasol:

- **Darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i blant:** Gallwch chi (fel unigolyn a chanddo gyfrifoldeb rhiant) neu eich plentyn gyflwyno cwyn i'ch awdurdod lleol yn ymwneud â chyflawni ei ddyletswyddau mewn cysylltiad â phlant a chanddynt anghenion gofal a chymorth a'u teuluoedd. Dylid cyflwyno'r gŵyn cyn gynted â phosibl, ac mewn unrhyw achos o fewn blwyddyn.¹⁷⁴ Gofynnir i bob awdurdod lleol gael gweithdrefn arbennig i ymdrin â chwynion ynglŷn â gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, a dylai manylion amdani fod ar gael ar ei wefan.
- **Cyflwyno cwyn i'r Ombwdsman:** Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn archwilio cwynion am y ffordd y mae awdurdodau lleol wedi gwneud rhywbeth, neu heb wneud rhywbeth y dylent fod wedi'i wneud¹⁷⁵ mewn meysydd sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol. Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir bod y gŵyn wedi dilyn gweithdrefn gwyno'r awdurdod

¹⁷⁴ Rheoliad 13, Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 SI 1794 (W. 187) a 'Canllawiau ar ddelio â chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol' (2014) gan Lywodraeth Cymru para 58
¹⁷⁵ <https://www.citizensadvice.org.uk/wales/family/looking-after-people/social-services-complaints-w/social-services-complaints-before-you-start-w/>

lleol yn y lle cyntaf. Gweler yr **adran Adnoddau ar dudalen 39** i gael rhagor o wybodaeth.

- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:** Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn rheoleiddio ac yn archwilio'r holl wasanaethau gofal yng Nghymru.
- **Camau cyfreithiol:** Gallwch chi, ar ran eich plentyn, wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol os ydych chi o'r farn bod eich awdurdod lleol wedi gweithredu'n anghyfreithlon.

Mewn cysylltiad â materion sy'n codi o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** (gweler **adran**

9. Geirfa

Anabl: mae unigolyn yn 'anabl' os oes ganddo anabled at ddibenion Ddeddf Cydraddoldeb 2010, h.y. os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol ac mae'r nam hwnnw yn cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau bob dydd arferol.

Asesiad gofalwr: yr asesiad y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei gynnal pan ymddengys bod angen cymorth ar ofalwr. Mae'n rhaid i'r asesiad ystyried a oes angen cymorth ar ofalwr mewn gwirionedd (neu a yw'n debygol o fod angen cymorth yn y dyfodol) ac, os felly, beth yw'r anghenion hynny (neu beth yw'r anghenion hynny yn debygol o fod yn y dyfodol).¹⁷⁶

Canllawiau anstatudol: canllawiau ymarferol sy'n ceisio helpu pobl i ddeall eu hawliau a'u hymrwymadau o dan y Ddeddf berthnasol. Er nad oes iddynt statws cyfreithiol, maent yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw dyledus iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau, ac os yw'n bwriadu peidio â dilyn y canllawiau, bydd yn rhaid iddo allu rhoi rhesymau da am y penderfyniad hwnnw.

Canllawiau statudol: canllawiau a

7 ar dudalen 31), gellir cyflwyno hawliadau gwahaniaethu yn y Llys Sirol. Caiff hawliadau sy'n ymwneud â dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus eu cyflwyno drwy gyfrwng adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Caiff y rhain eu cyflwyno gan unigolion, partion sydd â diddordeb a/neu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; gall y Comisiwn gyflwyno camau gorfodi mewn cysylltiad â dyletswyddau penodol. I gael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn a therfynau amser, gweler yr **adran Adnoddau ar dudalen 39**.

Noder: Os ydych yn ystyried cymryd camau cyfreithiol, dylech gael cyngor cyfreithiol ar unwaith gan fod y terfynau amser fel arfer yn llym ac yn fyr.

gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac sydd wedi'u dwyn gerbron y Senedd. Nid ydynt yn ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith. Fodd bynnag, gellir eu defnyddio fel tystiolaeth yn y llys neu mewn achos tribiwnlys mewn cysylltiad â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac mae'n rhaid i'r llys/tribiwnlys roi ystyriaeth i unrhyw ran o'r canllawiau yr ystyrir ei bod yn berthnasol wrth benderfynu ar y cwestiynau sy'n codi.

Cyfrifoldeb rhiant:¹⁷⁷ ceir diffiniad o'r term hwn yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989, sef yr hawliau, dyletswyddau, grymoedd, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant o ran plentyn a'i eiddo. Bydd angen i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant bennu pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan na all y plentyn wneud penderfyniadau am ei ofal neu ei driniaeth oherwydd, dan yr amgylchiadau hynny, bydd unigolyn â chyfrifoldeb rhiant yn gallu gwneud penderfyniad ar ran y plentyn.

Fel arfer bydd gan y ddau riant gyfrifoldeb rhiant, ond bydd angen i dadau dibriod gymryd camau i gael cyfrifoldeb rhiant. Mewn rhai achosion, gellir

¹⁷⁷ Ddeddf Plant 1989 S3 (yn berthnasol i Gymru a Lloegr)

rhannu cyfrifoldeb rhiant ag eraill, er enghraifft bydd yr awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant â'r rhieni (os oes cyfrifoldeb rhiant gan y ddau) pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn destun gorchymyn gofal.¹⁷⁸

Deddf Cydraddoldeb 2010: mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol i amddiffyn hawl unigolion trwy fynd i'r afael ag anfantais a gwahaniaethu.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005: mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ran unigolion 16 oed neu hŷn sy'n methu â gwneud penderfyniadau o'r fath eu hunain. Dylai unrhyw beth a wneir ac unrhyw benderfyniadau a wneir ar ran unigolyn heb alluedd gael eu gwneud er budd yr unigolyn hwnnw. I unigolion 16 oed a hŷn sy'n methu â gwneud eu penderfyniadau eu hunain, mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu bod modd cymryd camau mewn cysylltiad â gofal a thriniaeth yr unigolyn er budd yr unigolyn. Er mwyn penderfynu ar yr hyn a allai fod er budd yr unigolyn, dylid ymgynghori â'r rhai hynny sy'n gofalu am yr unigolyn (megis y rhieni). I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/government/collections/mental-capacity-act-making-decisions>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: y ddeddfwriaeth allweddol sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru.

Deddf Hawliau Dynol 1998: mae'r Ddeddf hon yn ymrwymo cyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol i weithio yn unol â'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Golyga hyn fod yn rhaid i unigolion sy'n gweithio i awdurdodau cyhoeddus, boed i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd neu i lunio polisiau a gweithdrefnau, sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth

¹⁷⁸ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 1970 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, nodyn esboniadol (paragraff 6 (parthed Rhan 8, tudalen 2)

i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wrth wneud eu gwaith bob dydd.

Erledigaeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn cyd-destun gwasanaethau: os yw darparwr gwasanaethau yn trin defnyddiwr gwasanaethau neu unigolyn sy'n ceisio cael gafael ar wasanaeth yn wael oherwydd bod hwnnw wedi cyflawni gweithred warchoddedig, neu oherwydd bod y darparwr gwasanaethau o'r farn bod y defnyddiwr wedi cyflawni, neu y gallai fod wedi cyflawni gweithred warchoddedig, mae hyn gyfystyr ag erledigaeth yn erbyn y defnyddiwr gwasanaethau neu'r unigolyn sy'n ceisio cael gafael ar y gwasanaeth.

Gofalwr: unigolyn sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.¹⁷⁹

Gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol: defnyddir y term hwn i ddisgrifio adran yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant anabl). Yng Nghymru mae awdurdodau yn aml yn rhannu'r cyfrifoldeb am ddarparu gofal cymdeithasol i bobl anabl rhwng adran gwasanaethau plant ac adran gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.

'Gweithred warchoddedig' yw:

- Dwyn achos o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf)
- Rhoi tystiolaeth neu wybodaeth mewn cysylltiad ag achos o dan y Ddeddf
- Gwneud unrhyw beth arall at ddibenion neu yng nghyswllt y Ddeddf
- Gwneud honiad echblyg neu ymhlyg bod rhywun arall wedi mynd yn groes i'r Ddeddf (pa un a gaiff yr honiad ei dynnu yn ôl yn hwyrach ai peidio).

Meini prawf cymhwystro: y rhain yw'r meini prawf y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i benderfynu a yw 'anghenion' yr unigolyn yn ei wneud yn gymwys am ddarpariaeth gofal

¹⁷⁹ S3(4)

a chymorth. Mae'r rheoliadau meini prawf cymhwystra yn creu proses pedwar cam fel y nodir yn adran 3.14 ar dudalen 17 uchod.

Oedolyn: unigolyn dros 18 oed.¹⁸⁰

Plentyn: unigolyn dan 18 oed.¹⁸¹

180 S3(2)

181 S3(3)

Plentyn sy'n derbyn gofal: plentyn sydd naill ai yn derbyn gofal yr awdurdod lleol (h.y. yn destun gorchymyn gofal neu orchymyn gofal interim), neu sy'n cael llety gan yr awdurdod lleol am gyfnod parhaus am fwy na 24 awr wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.¹⁸²

182 S74; a Rhan 6 o'r Cod, para 112

10. Adnoddau

Sefydliadau Defnyddiol

Carers UK

Mae Carers UK yn elusen a sefydlwyd i helpu pobl sy'n gofalu am deulu neu ffrindiau. Mae ei gwaith yn cynnwys rhoi gwybodaeth a chynghor ar ofalu:

<http://www.carersuk.org>

Comisiynydd Plant Cymru

Mae'r Comisiynydd Plant yn cefnogi plant a phobl ifanc i gael gwybodaeth am hawliau plant, yn gwrandao ar blant a phobl ifanc i gael gwybod beth sy'n bwysig iddynt, yn rhoi cynghor i blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt pan fyddant yn teimlo nad oes unman arall ganddynt i fynd gyda'u problemau, ac yn siarad ar ran plant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig:

<http://www.complantcymru.org.uk>

Cynghor ar Bopeth

Ffynhonnell cynghor a chymorth os ydych yn dymuno cwyno am wasanaethau cymdeithasol neu awdurdodau lleol:

<https://www.citizensadvice.org.uk/wales>

Contact a Family

Darparu cymorth, gwybodaeth a chynghor i deuluoedd plant anabl:

<http://www.cafamily.org.uk>

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

Mae ei swyddogaeth yw hyrwyddo a monitro hawliau dynol; ac amddiffyn, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y naw 'nodwedd warchoddedig' o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010—oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol:

<http://www.equalityhumanrights.com/en/commission-wales>

The Law Society

Mae ganddyn cyfeiriadur o gyfreithwyr, cyfleuster dod o hyd i gyfreithiwr, sy'n grymuso pobl i ddod o hyd i gyfreithwyr lleol sy'n arbenigo mewn ymarfer penodol ac sydd ag achrediadau'r Law Society:

<http://solicitors.lawsociety.org.uk>

Public Law Project (PLP)

Elusen gyfreithiol annibynnol, genedlaethol sy'n ceisio gwella mynediad at atebion cyfraith gyhoeddus i'r rhai sy'n cael eu hatal rhag cael gwasanaethau o'r fath oherwydd tldi, gwahaniaethu neu rwystrau tebyg. Mae ei gwefan yn cynnwys canllawiau ar sut i wneud cwyn:

<http://www.publiclawproject.org.uk>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW)

Maent yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru, gan gynnwys ymchwilio i gwynion bod aelodau o'r awdurdod lleol wedi mynd yn groes i god ymarfer yr awdurdod. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac mae'r gwasanaeth yn ddi-dduedd ac am ddim

<http://www.ombudsman-wales.org.uk>

Rhagor o wybodaeth a chanllawiau

I gael rhagor o wybodaeth am bynciau eraill megis addysg, ewch i'r canllawiau i rieni sydd ar gael ar wefan Cerebra: <http://w3.cerebra.org.uk/>

Am ganllawiau ar wasanaethau eiriolaeth: <http://www.nhs.uk/Conditions/social-care-and-support-guide/Pages/advocacy-services.aspx>

Cwynion

Taflen ffeithiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar wneud cwyn am gorff cyhoeddus:

http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/_media/Files/Documents_en/Want%20to%20complain%20about%20a%20public%20body%20single%20spread%20Nick%20Bennett%20%20Aug%2014.ashx

Gwybodaeth gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth am y broses gwyno o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: <https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance>

Mae gwybodaeth am wahaniaethu ar sail anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 hefyd ar gael ar wefan, ynghyd â'i Wasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb:

<http://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/disability-discrimination>

Deddf Cydraddoldeb 2010 a gwasanaethau gofal cymdeithasol

Cod Ymarfer Statudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Wasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Chymdeithasau: <http://www.equalityhumanrights.com/publication/services-public-functions-and-associations-statutory-code-practice>

Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, Deddf Cydraddoldeb 2010: Canllaw ar faterion i'w hystyried wrth benderfynu ar faterion yn ymwneud â diffinio anabledd (2011)

<https://www.gov.uk/government/publications/disability-equality-act-2010-guidance-on-matters-to-be-taken-into-account-in-determining-questions-relating-to-the-definition-of-disability>

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Canllaw technegol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Cymru:

<http://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/technical-guidance-public-sector-equality-duty-wales>

Deddfwriaeth, Rheoliadau, Codau Ymarfer, Canllawiau Statudol a Chonfensiynau

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted>

Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: <http://www.ccwales.org.uk/regulations-and-codes>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol: <http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance>

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: <http://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/crc.aspx>

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl: <http://www.un.org/disabilities/convention/conventionfull.shtml>

Cyfeiriadau cyfreithiol

Steve Broach, Luke Clements, & Janet Read, Disabled Children: A Legal Handbook, LAG & Council for Disabled Children, 2016. Ar gael ar-lein yn: <http://www.councilfordisabledchildren.org.uk/resources/disabled-children-a-legal-handbook-2nd-edition>

Luke Clements, The Social Services & Well-being (Wales) Act 2014: An overview. Ar gael ar-lein yn: <http://www.lukeclements.co.uk/wp-content/uploads/2016/03/0-SS-Well-being-Act-15.pdf>

Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant

Llywodraeth Cymru, Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (2005): <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=441>

Gofal Parhaus y GIG

Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc, Llywodraeth Cymru, 2012: <http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/care/?lang=en>

Asesiad Gofalwr

Gofalwyr Cymru, Asesiadau: Canllaw ar gael Asesiad yng Nghymru o fis Ebrill 2016:

<https://www.carersuk.org/wales/news/the-social-services-and-wellbeing-wales-act-2014-comes-into-force>

Cyflwyno'r Awdur

Ysgrifennwyd yr wybodaeth am ofal cymdeithasol yn y canllawiau hyn yn wreiddiol gan Camilla Parker a Jo Honigmann o Just Equality a Luke Clements o Ysgol y Gyfraith Prifysgol Leeds.

Fe'i hadolygwyd a'i diweddarau gan Sarah Westoby,

Cymhwysodd Sarah fel cyfreithwraig yn 2009, gan ymuno â Scott-Moncrieff and Associates Ltd fel ymgynghorydd yn 2016. Mae Sarah yn arbenigo mewn gwaith sydd er lles pennaf cleientiaid yn y Llys Gwarchod lle mae'n cynrychioli achosion sy'n ymwneud â materion iechyd a llesiant. Mae materion o'r fath yn cynnwys materion preswyl, cyswllt, gofal a thriniaeth pan nad oes gan bobl y gallu meddyliol i benderfynu ar y materion hynny drostynt eu hunain. Mae ei chleientiaid yn cynnwys y rhai hynny heb alluedd, plant, rhieni, perthnasau a'r Cyfreithiwr Swyddogol. Mae Sarah hefyd yn arbenigo mewn trefniadau amddifadu o ryddid, y Ddeddf Hawliau Dynol a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd.

Canfyddiadau'r awdur sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, nid o reidrwydd ganfyddiadau Cerebra.

Argraffiad cyntaf: 2017

Yr argraffiad hwn: 2017

Dyddiad adolygu: 2020



Working wonders for children with brain conditions

Rhif Elusen Gofrestredig: 1 0898 | 2 Rhif y Cwmni: 4336208

Cyfeiriad Post

Cerebra

Swyddfeydd 2il Lawr

Adeiladu'r Lyric

Heol Y Brenin

Caerfyrddin

SA31 1BD

Ffôn: 01267 244200

www.cerebra.org.uk



INVESTORS
IN PEOPLE